# RHEOLAU ENGHREIFFTIOL AR GYFER CYMDEITHASAU TAI YNG NGHYMRU:

*Cofrestrwyd dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014*

**Rhif Cofrestru** ............................................

Cartrefi Cymunedol Cymru | Community Housing Cymru

Rheolau Enghreifftiol 2021

# Cartrefi Cymunedol Cymru


## HAWLFRAINT

**Mae'r Rheolau Enghreifftiol hyn yn hawlfraint ac yn eiddo deallusol Cartrefi Cymunedol Cymru (CHC)**

**Ni chaniateir eu llungopïo neu eu hatgynhyrchu mewn modd arall un ai'n rhannol nac yn llawn heb ganiatâd ysgrifenedig penodol CHC, y gellir codi ffi amdano.**


**Mae'r Rheolau Enghreifftiol hyn yn set bwrpasol i gael eu defnyddio gan Gymdeithasau Tai yng Nghymru, a chawsant eu cynllunio i adlewyrchu deddfwriaeth benodol, y fframwaith rheoleiddiol a chyfarwyddyd yng Nghymru. Maent yn seiliedig i raddau helaeth ar Reolau Enghreifftiol 2015 y Ffederasiwn Tai Cenedlaethol.**

**Opsiynau a chanllawiau pellach**

Ysgrifennwyd y Rheolau Enghreifftiol hyn gyda'r bwriad o fod yn ddigon cyffredinol i bob Cymdeithas Tai eu defnyddio. Felly mae cyfeiriadau yn y testun at *Gymdeithasau* yn cyfeirio at Gymdeithasau Tai a Chwmnïau Cymunedol Cydfuddiannol.

Mae Rhan O y Rheolau Enghreifftiol hyn yn cynnwys amrywiaeth o opsiynau i gyflawni amrediad o anghenion gwahanol. Cawsant eu rhannu'n fwriadol yn bedair adran neilltuol i adlewyrchu:

- **ADRAN I** : opsiynau generig i'r model sylfaen ar gyfer pob Cymdeithas Tai;
- **ADRAN II:** opsiynau ar gyfer grwpiau, cyrff rhiant ac is-gyrff;
- **ADRAN III:** opsiynau'n cyfeirio'n benodol at gyrff trosglwyddo stoc ar raddfa fawr a chwmnïau cymunedol cydfuddiannol (lle maent yn debyg);
- **ADRAN IV:** unrhyw opsiynau ychwanegol na ddaw o fewn Adran III uchod yn cyfeirio'n benodol at Gwmnïau Cymunedol Cydfuddiannol yn unig.

Os na chafodd ei ddileu, mae pob opsiwn yn ffurfio rhan o'r rheolau i gael eu cofrestru. Os na ddefnyddir unrhyw un o'r opsiynau yn Rhan O, mae'r model sylfaenol dilynol ar gyfer Cymdeithas Gofrestredig elusennol. Yn yr un modd, mae unrhyw eiriau mewn [cromfachau sgwâr] yn ffurfio rhan o'r rheolau os na chawsant eu dileu. Yn ychwanegol, fel set enghreifftiol yn unig, mae'r Rheolau'n cynnwys nifer o baragraffau lle defnyddir [x] i ganiatáu dewis/defnydd lleol.

Dylid darllen y Rheolau Enghreifftiol yma mewn cysylltiad gyda'r fersiwn diweddaraf o God Llywodraethiant CHC, fel y'i cyhoeddir gan CHC o bryd i'w gilydd.

**Diolchiadau**

Wrth ddatblygu'r Rheolau Enghreifftiol hyn hoffai CHC ddiolch i'r dilynol am eu cyfraniad a'u cyngor:

**Cyfreithiol**

| | |
|---|---|
| Jonathan Jarvis | Devonshires Solicitors |
| Nadine Offori-Atta | Devonshires Solicitors |

**Adolygiad Rheolau Enghreifftiol CHC 2021**

*Grŵp Darllenwyr Beirniadol*

| | |
|---|---|
| Gwenno Littlewood | Adra |
| Sandra D. Lee | Cartrefi Conwy |
| Nia Roblin | United Welsh |
| Claire McDougall | Tai Wales & West |

*Tîm Rheoleiddio Llywodraeth Cymru*

| | |
|---|---|
| Ian Walters | Llywodaeth Cymru |
| Simon Fowler | Llywodraeth Cymru |

Holl gynrychiolwyr y cymdeithasau tai a ymatebodd i arolwg CHC yn 2020 ar y meysydd newid a awgrymwyd.

**Grŵp Ymgynghori CHC 2017 – ar gyfer drafftio'r Rheolau Enghreifftiol gwreiddiol**

| | |
|---|---|
| Allison Sorroko | Cartrefi Cymoedd Merthyr |
| Claire McDougall | Cartrefi Cymunedol Cymru |
| Stuart Ropke | Cartrefi Cymunedol Cymru |
| Joanna Fairley | Cartrefi Dinas Casnewydd |
| Lisa Evans | Cartrefi NPT |
| Linda Whittaker | Cartrefi NPT |
| Samantha Williams | Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd |
| Nia Roblin | Cymdeithas Tai United Welsh |
| Jill Jones | Grŵp Cartrefi Cymunedol Bron Afon |
| Tracey Healey | Grŵp Pobl |
| Trevor Henderson | Grŵp Tai Pennaf |
| Karen Jeffreys | Linc Cymru |

| | |
|---|---|
| Rebecca English | Adran Cydfuddiannol FCA |
| Carol Kay | Llywodraeth Cymru |
| Sarah Laing-Gibbens | Llywodraeth Cymru |
| Ian Walters | Llywodraeth Cymru |
| Ian Williams | Llywodraeth Cymru |

## CYNNWYS


| | |
|---|---|
| **Rhan A** | **Enw ac Amcanion** |
| A1 | Enw |
| A2 | Amcanion |
| A3-A4 | Di-elw |
| **Rhan B** | **Pwerau cymdeithas, bwrdd, a chyfranddeiliaid** |
| B1-B3 | Pwerau |
| B4-B6 | Pwerau'r bwrdd |
| B7 | Pwerau cyfyngedig cyfranddeiliaid mewn cyfarfod cyffredinol |
| B8-B9 | Cyffredinol |
| **Rhan C** | **Cyfranddeiliaid a chyfarfodydd cyffredinol** |
| C1 | Goblygiadau cyfranddeiliaid |
| C2-C4 | Natur cyfranddaliadau |
| C5-C10 | Natur cyfranddeiliaid |
| C11-C13 | Derbyn cyfranddeiliaid |
| C14-C15 | Diweddu cyfranddaliad |
| C16-C17 | Cyfarfod cyffredinol blynyddol |
| C18-C19 | Cyfarfodydd cyffredinol arbennig |
| C20-C22 | Galw cyfarfod cyffredinol |
| C23-C27 | Trafodion mewn cyfarfodydd cyffredinol |
| C28 | Dirprwyon |
| C29-C36 | Pleidleisio |
| C36-37 | Cynrychiolwyr ac enwebedigion |
| **Rhan D** | **Y bwrdd** |
| D1 | Swyddogaethau |
| D2-D4 | Cyfansoddiad y bwrdd |
| D5-D7 | Terfynu aelodaeth bwrdd |
| D8-D12 | Cyfnodau swydd ac ethol i'r bwrdd |
| D13-14 | Cworwm y bwrdd |
| D15-D26 | Buddiant aelodau bwrdd |
| D27-D28 | Cyfarfodydd y bwrdd |
| D29 | Argaeledd datganiadau neilltuol gan y bwrdd |
| D30-D34 | Rheolaeth a dirprwyo |
| D35-D39 | Darpariaethau amrywiol |

**Rhan E** **Cadeirydd, is-gadeirydd, prif swyddog gweithredol, ysgrifennydd a swyddogion eraill**

E1-E4 Y cadeirydd
E5-E6 Cyfrifoldebau'r cadeirydd
E7 Y prif swyddog gweithredol
E8 Yr ysgrifennydd
E9 Swyddogion eraill
E10-E11 Amrywiol

**Rhan F** **Rheolaeth ariannol ac archwilio**

F1-F5 Archwilydd
F6- F7 Dyletswyddau archwilydd
F8-10 Gofynion cyfrifeg
F11 Dychwelebau blynyddol a mantolenni
F12-F14 Benthyciadau
F15 Buddsoddiadau
F16 Cyfraniadau

**Rhan G** **Amrywiol a statudol**

G1-G2 Swyddfa gofrestredig ac enw cofrestredig
G3 Anghydfodau
G4-G9 Cofnodion, sêl, cofrestri a llyfrau
G10-G11 Ceisiadau statudol i'r cofrestrydd
G12 Gwelliannau i reolau
G13-G14 Diddymu
G15-G16 Dehongli termau

**Rhan O** **Darpariaethau opsiynol**

## RHAN A ENW AC AMCANION

### Enw

A1 Enw'r gymdeithas fydd: ........................................................................................ Cyfyngedig ("y gymdeithas").

### Amcanion

A2 Ffurfiwyd y gymdeithas er budd y gymuned. Ei hamcanion [elusennol] fydd cynnal er budd y gymuned:

A2.1 y busnes o **ddarparu (a rheoli) tai, llety** a darparu cymorth i helpu lletya pobl a chyfleusterau ac amwynderau neu wasanaethau cysylltiedig [ym mhob achos ar gyfer pobl mewn risg o dlodi neu'n byw mewn tlodi, neu ar gyfer cymorth i'r henoed, pobl gydag anableddau (p'un ai gorfforol neu feddyliol) neu bobl gyda salwch cronig];

A2.2 unrhyw amcan [elusennol] arall y medrir ei gynnal o bryd i'w gilydd gan Gymdeithas Gofrestredig sydd wedi cofrestru fel **landlord cymdeithasol** gyda'r rheoleiddiwr.

### Di-elw

A3 Ni fydd y gymdeithas yn masnachu er elw, a dim ond ar gyfer dibenion hyrwyddo amcanion y Gymdeithas a/neu yn unol â'r Rheolau hyn y defnyddir unrhyw elw.

A4 Ni chaiff dim ei dalu neu ei drosglwyddo fel elw i gyfranddeiliaid y gymdeithas.

## RHAN B PWERAU CYMDEITHAS, BWRDD A CHYFRANDDEILIAID

### Pwerau

B1 Bydd gan y gymdeithas y pŵer i wneud unrhyw beth y gall person naturiol neu gorfforaethol ei wneud yn gyfreithlon sydd yn angenrheidiol neu'n gyfleus i gyflawni ei hamcanion, heblaw lle caiff ei hatal rhag gwneud hynny gan unrhyw ddeddfwriaeth, penderfyniad, manyleb neu gyfarwyddyd rheoleiddiol perthnasol, sydd mewn grym o bryd i'w gilydd, neu lle gwaherddir hynny'n benodol yn ei rheolau.

B2 Heb gyfyngu ei phwerau cyffredinol bydd gan y gymdeithas bŵer i:

B2.1 brynu, caffael neu waredu, aseinio, neu gymryd neu ganiatáu unrhyw fuddiant mewn tir yn cynnwys unrhyw forgais, arwystl neu unrhyw warant arall o ba bynnag fath, adeiladu neu wneud gweithiau i adeiladau;

B2.2 helpu unrhyw elusen neu gorff arall heb fod yn masnachu am elw yng nghyswllt tai a gwasanaethau cysylltiedig;

B2.3 yn amodol ar reolau F12, F13, a F14, fenthyca arian neu ddyroddi bondiau, nodi stoc benthyciadau neu unrhyw offeryn dyled arall neu ymrwymo i unrhyw drafodion sydd ag effaith masnachol benthyca;

B2.4 ymrwymo i a gwneud unrhyw drafodion deilliadol ar delerau o'r fath y cred y gymdeithas sy'n addas ar gyfer y diben o ymddiogelu neu reoli mewn modd arall unrhyw risg i drysorfa neu agoredwydd ariannol arall y gymdeithas;

B2.5 yn amodol ar reol F15, fuddsoddi cronfeydd y gymdeithas;

B2.6 benthyca arian ar delerau y gall y gymdeithas gredu sy'n addas; a

B2.7 gwarantu, ymrwymo i unrhyw gontract indemniaeth neu fechnïaeth neu ddarparu gwarant ar gyfer benthyciadau neu berfformiad rhwymedigaethau trydydd parti ar delerau o'r fath y mae'r gymdeithas yn eu hystyried yn briodol.

B3 Ni fydd gan y gymdeithas y pŵer i dderbyn arian mewn unrhyw fodd fyddai angen awdurdodiad dan y Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 (neu unrhyw awdurdod arall sy'n ofynnol gan statud) os nad oes ganddo awdurdodiad o'r fath.

**Pwerau'r bwrdd**

B4 Caiff busnes y gymdeithas ei gyfarwyddo gan y bwrdd.

B5 Ar wahân i'r pwerau hynny y mae'n rhaid eu gweithredu mewn cyfarfod cyffredinol:

B5. 1 drwy statud; neu

B5.2 dan y rheolau hyn,

gall holl bwerau'r gymdeithas gael eu gweithredu gan y bwrdd ar ran ac yn enw'r gymdeithas.

B6 Bydd gan y bwrdd y pŵer i ddirprwyo, mewn ysgrifen, yn amodol ar reolau D30-34, ymarfer unrhyw un o'i bwerau i bwyllgorau, i swyddogion ac i bersonau a gyflogir y gymdeithas ar y telerau y mae'n eu penderfynu. Gall dirprwyad o'r fath gynnwys unrhyw un o bwerau a disgresiynau y bwrdd.

**Pwerau cyfyngedig cyfranddeiliaid mewn cyfarfod cyffredinol**

B7 Dim ond pwerau cymdeithas a neilltuwyd yn benodol iddi gan y rheolau hyn neu drwy statud y gall y gymdeithas eu gweithredu mewn cyfarfod cyffredinol.

**Cyffredinol**

B8 Bydd tystysgrif gan swyddog y gymdeithas y gweithredwyd pŵer yn briodol yn derfynol rhwng y gymdeithas ac unrhyw drydydd parti yn gweithredu'n ddidwyll.

B9 Ni fydd yn gonsyrn i berson sy'n gweithredu'n ddidwyll nad oes ganddo hysbysiad gwirioneddol o'r rheolau hyn neu reoliadau'r gymdeithas i weld neu i ymholi os cafodd pwerau'r bwrdd eu cyfyngu gan reolau neu reoliadau o'r fath.

## RHAN C CYFRANDDEILIAID A CHYFARFODYDD CYFFREDINOL

### Goblygiadau cyfranddeiliaid

C1 Mae pob cyfranddeiliad yn cytuno i gael eu rhwymo gan y goblygiadau arnynt fel y'u nodir yn y rheolau hyn. Pan fyddant yn gweithredu fel cyfranddeiliaid byddant yn gweithredu bob amser er budd y gymdeithas ac er budd y gymuned, fel gwarcheidwaid amcanion y gymdeithas.

### Natur cyfranddaliadau

C2 Codir cyfalaf cyfranddaliadau'r gymdeithas drwy ddyroddi cyfranddaliadau. Bydd gan bob cyfranddaliad werth enwol o £1 na fydd yn cario unrhyw hawl i log, difidend neu fonws, heblaw'r hyn a ganiateir gan baragraff 1 Atodlen 1 Deddf Tai 1996.

C3 Dim ond cyfranddaliadau a ddelir gan enwebai corff anghorfforedig (ar ei ben ei hun neu ar y cyd ag enwebedigion eraill) a all gael eu tynnu'n ôl neu eu trosglwyddo a hynny ond i enwebai newydd y corff anghorfforedig hwnnw (ar ei ben ei hun neu ar y cyd gydag enwebedigion eraill). Lle mae'r rheol hon yn caniatáu trosglwyddiad o'r fath, mae'n rhaid i'r cyfranddeiliad sy'n trosglwyddo weithredu trosglwyddiad mewn ffurf a gymeradwywyd gan y bwrdd, a darparu hyn i'r bwrdd. Os yw'r bwrdd yn cymeradwyo'r trosglwyddiad, caiff ei gynnwys mewn cofrestr o gyfranddeiliaid y gymdeithas.

C4 Pan fo cyfranddeiliad yn peidio bod yn gyfranddeiliad neu'n cael ei ddiarddel o'r gymdeithas, caiff ei gyfranddaliad ef neu hi eu canslo. Daw'r swm a dalwyd ar y cyfranddaliad hwnnw yn eiddo'r gymdeithas.

### Natur cyfranddeiliaid

C5 Cyfranddeiliad y gymdeithas yw person neu gorff y mae eu henw a'u cyfeiriad wedi'u nodi yn y gofrestr cyfranddeiliaid.

C6 Ni all y dilynol ddod yn gyfranddeiliaid:

- C6.1 person dan oed - i'w benderfynu gan y Bwrdd;
- C6.2 person a gafodd ei ddiarddel fel cyfranddeiliad, os na chafodd awdurdod gan benderfyniad arbennig mewn cyfarfod cyffredinol;
- C6.3 person a gyflogir gan y gymdeithas neu berson a gyflogir gan aelod o'r grŵp;
- C6.4 person a gafodd ei symud o'r bwrdd yn unol â rheol D5;
- C6.5 person y mae ymarferydd meddygol cofrestredig sy'n trin y person hynny yn rhoi barn ysgrifenedig yn golygu y daeth y person yn analluog yn gorfforol neu'n feddyliol o weithredu eu hawliau fel cyfranddeiliad ac y gall barhau felly am fwy na thri mis;
- C6.7 person a gafodd ei ddatgymhwyso rhag gweithredu fel cyfarwyddwr cwmni am unrhyw reswm, neu a gafwyd yn euog o drosedd dditiadwy sydd heb, na ellir ei, darfod.

C7 Gall cyfranddeiliad fod yn enwebai corff anghorfforedig. Mewn achosion o'r fath bydd y gofrestr yn cynnwys enw a chyfeiriad y cyfranddeiliad a bydd yn dynodi'r cyfranddeiliad fel enwebai corff anghorfforedig a enwir. Caiff cyfeiriad y corff anghorfforedig hefyd ei roi yn y gofrestr os yw'n wahanol i gyfeiriad y cyfranddeiliad a enwebwyd.

C8 Gall corff corfforaethol fod yn gyfranddeiliad. Gall benodi unigolyn i weithredu ei hawliau mewn cyfarfodydd cyffredinol. Bydd unrhyw apwyntiad o'r fath mewn ysgrifen neu ddull arall o gyfathrebu yn unol â rheol G16, a chaiff ei roi i'r Ysgrifennydd.

C9 Ni fydd gan unrhyw gyfranddeiliad fwy nag un cyfranddaliad a dim ond un bleidlais fydd gan bob cyfranddaliad.

C10 Ni ellir dal cyfranddaliad ar y cyd heblaw gan enwebedigion corff anghorfforedig.

**Derbyn cyfranddeiliaid**

C11 Bydd y bwrdd yn gwneud ar gael i'w aelodaeth bolisïau ac amcanion ar gyfer derbyn cyfranddeiliaid newydd. Dim ond yn unol â pholisïau o'r fath y bydd y bwrdd yn derbyn cyfranddeiliaid newydd.

C12 Gall ymgeisydd am gyfranddaliad wneud cais mewn ysgrifen i swyddfa gofrestredig y gymdeithas yn unol â pholisïau aelodaeth cymeradwy fel yn ôl rheol C11.

C13 Mae gan y bwrdd ddisgresiwn llwyr i dderbyn neu wrthod y cais. Os cymeradwyir y cais, caiff enw'r ymgeisydd ac unrhyw fanylion eraill gofynnol eu rhoi yn y gofrestr o gyfranddeiliaid. Dyroddir un cyfranddaliad yn y gymdeithas i'r ymgeisydd.

**Diweddu cyfranddaliad**

C14 Bydd cyfranddeiliad yn peidio bod yn gyfranddeiliad:

C14.1 os ydynt yn marw; neu

C14.2 os ydynt yn cael eu diarddel dan reol C15; neu

C14.3 os ydynt yn gadael y gymdeithas drwy roi un mis o hysbysiad i'r ysgrifennydd a ddaw i rym pan gaiff ei dderbyn, os nad ydynt yn un o'r tri rhanddeiliaid olaf sydd ar ôl ac os felly mae'n rhaid iddynt roi o leiaf un mis o hysbysiad ysgrifenedig i'r ysgrifennydd eu bod yn gadael; neu

C14.4 os nad ydynt yn cymryd rhan yn, nac yn cyflwyno ymddiheuriadau ysgrifenedig ymlaen llaw am ddau gyfarfod blynyddol cyffredinol olynol o'r gymdeithas; neu

C14.5 yn achos corff corfforaethol os yw'n peidio bod yn gorff corfforaethol; neu

C14.6 yn achos enwebai corff anghorfforedig, eu bod yn trosglwyddo eu cyfranddaliad i enwebai arall o'r corff hwnnw; neu

C14.7 os ydynt yn peidio bod yn gyfranddeiliad dan reol C6; neu

C14.8 os yw'r gymdeithas yn ysgrifennu at y cyfranddeiliad yn gofyn iddynt os dymunant barhau'n gyfranddeiliad o'r gymdeithas a'r cyfranddeiliad yn methu ateb eu bod eisiau hynny o fewn y cyfnod gosod a benodwyd yn llythyr y gymdeithas (na fydd yn llai na thri mis); neu

C14.9 os yw'r gymdeithas wedi cael gorchymyn yn eu herbyn gan lys cymwys neu dribiwnlys i adennill arian sydd yn ddyledus ganddynt i'r gymdeithas os cafodd y gorchymyn ei ohirio neu os yw'n orchymyn am dalu mewn rhandaliadau dim ond os methant gyflawni telerau'r gorchymyn y byddant yn peidio bod yn gyfranddeiliad; neu

C14.10 os ydynt yn denant ac yn torri eu cytundeb tenantiaeth neu brydles mewn ffordd sylweddol neu ddifrifol ac yn methu unioni'r toriad hwnnw o fewn cyfnod rhesymol a gytunwyd gyda'r gymdeithas neu eu bod yn destun gorchymyn meddiant neu'n torri gorchymyn meddiant wedi'i ohirio neu'n destun unrhyw un o'r mathau dilynol o orchymyn

llys: gorchymyn ymddygiad troseddol; gwaharddeb yn unol ag adran 1 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Deddf Heddlu a Thenantiaeth 2014, tenantiaeth israddedig, neu orchymyn cau; neu unrhyw orchymyn barnwrol arall (o ba bynnag enw) sydd ag effaith gyfartal; neu

C14.11 ar ôl bod yn denant, bod cyfranddeiliad yn peidio bod yn breswylydd os yw'r bwrdd ar ei ddisgresiwn yn caniatáu i berson o'r fath barhau'n gyfranddeiliad; neu

C14.12 ar ôl bod yn aelod bwrdd neu bwyllgor, eu bod yn peidio dal unrhyw swydd fel aelod bwrdd neu bwyllgor a bod y bwrdd yn penderfynu eu bod yn peidio bod yn gyfranddeiliad.

C15 Dim ond drwy benderfyniad mewn cyfarfod cyffredinol arbennig a elwir gan y bwrdd y gall cyfranddeiliad gael ei wahardd.

C15.1 Mae'n rhaid i'r bwrdd roi o leiaf un mis o hysbysiad ysgrifenedig o'r cyfarfod cyffredinol i'r cyfranddeiliad. Rhaid i'r hysbysiad i'r cyfranddeiliaid roi manylion y gŵyn o ymddygiad niweidiol i'r gymdeithas ac mae'n rhaid iddi ofyn i'r cyfranddeiliad fynychu'r cyfarfod i ateb y gŵyn.

C15.2 Yn y cyfarfod cyffredinol a alwyd ar gyfer y diben hwn bydd y cyfranddeiliaid yn ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd gan y bwrdd a gan y cyfranddeiliaid (os oes). Gall y cyfarfod ddigwydd heb i'r cyfranddeiliad fod yn bresennol.

C15.3 Os caiff y penderfyniad i ddiarddel y cyfranddeiliad ei basio yn unol â'r rheol hon, bydd y cyfranddeiliad yn peidio bod yn gyfranddeiliad ar unwaith. Ni chaiff unrhyw berson a gafodd eu diarddel o aelodaeth eu hail-dderbyn heblaw drwy benderfyniad a gariwyd gan bleidleisiau dau-draean y cyfranddeiliaid sy'n bresennol yn bersonol neu drwy ddirprwy ac yn pleidleisio mewn pleidlais mewn cyfarfod cyffredinol blynyddol neu gyfarfod cyffredinol arbennig.

**Cyfarfod cyffredinol blynyddol**

C16 Bydd y gymdeithas yn cynnal cyfarfod cyffredinol a elwir yn gyfarfod cyffredinol blynyddol o fewn chwe mis calendr ar ôl diwedd pob un o'i blynyddoedd ariannol neu ddyddiad hwyrach a ganiateir gan y gyfraith.

C17 Swyddogaethau'r cyfarfod cyffredinol blynyddol fydd:

C17.1 derbyn yr adroddiad blynyddol fydd yn cynnwys crynodeb o

- y cyfrifon refeniw a mantolenni am y cyfnod cyfrifeg diwethaf;
- adroddiad yr archwilydd (os oes angen cyfreithiol am un) ar y cyfrifon a'r mantolenni hynny; ac
- adroddiad y bwrdd ar fusnes y gymdeithas.

C17.2 yn amodol ar reolau F3 a F4 i benodi'r archwilydd (os oes gofyniad cyfreithiol am un);

C17.3 ethol (neu ailethol) aelodau bwrdd os yn berthnasol;

C17.4 gweithredu unrhyw fusnes cyffredinol arall y gymdeithas a nodir yn yr hysbysiad yn cynnull y cyfarfod yn cynnwys unrhyw fusnes sydd angen penderfyniad arbennig.

**Cyfarfodydd cyffredinol arbennig**

C18 Bydd pob cyfarfod cyffredinol heblaw cyfarfodydd cyffredinol blynyddol yn gyfarfodydd cyffredinol arbennig a chânt eu cynnull naill ai:

C18.1 ar orchymyn y bwrdd; neu

C18.2 ar gais ysgrifenedig a lofnodwyd gan ddegfed rhan y cyfranddeiliaid (hyd at uchafswm o 25 ond heb fod yn llai na thri) yn nodi'r busnes ar gyfer cynnull y cyfarfod; neu

C18.3 os na chafodd cyfarfod ei gynnull o fewn 28 diwrnod o dderbyn cais i'r ysgrifennydd, gall y cyfranddeiliaid a lofnododd y cais gynnull cyfarfod.

C19 Ni fydd cyfarfod cyffredinol arbennig yn trafod unrhyw fusnes na chaiff ei nodi yn yr hysbysiad yn cynnull y cyfarfod.

**Galw cyfarfod cyffredinol**

C20

C20.1 Yn amodol ar reol C22, caiff pob cyfarfod cyffredinol eu cynnull gydag o leiaf 14 diwrnod clir o hysbysiad ysgrifenedig a weinir yn unol â rheol G16 ar bob cyfranddeiliaid. Bydd yr hysbysiad:

- yn cael ei bostio neu ei ddosbarthu gyda llaw neu ei anfon drwy gyfathrebiad electronig at bob cyfranddeiliad yn y cyfeiriad neu gyfeiriad cyfathrebu electronig a roddir ar eu cyfer yn y gofrestr o gyfranddeiliaid; ac
- yn nodi os yw'r cyfarfod yn gyfarfod cyffredinol blynyddol neu'n gyfarfod cyffredinol arbennig ac yn rhoi manylion unrhyw ddull o gymryd rhan, presenoldeb neu gyfathrebu drwy gyfleuster neu gyfleusterau electronig, a'r amser, dyddiad a man y cyfarfod, a'r busnes y caiff ei gynnull ar ei gyfer.

C20.2 Gall y Bwrdd wneud pa bynnag drefniadau y mae'n eu hystyried yn addas i hwyluso presenoldeb a chyfranogiad cyfranddeiliaid (a mynychwyr eraill) mewn cyfarfodydd cyffredinol yn cynnwys drwy ddefnyddio cyfleuster neu gyfleusterau electronig.

C20.3 Bydd y Bwrdd yn penderfynu yng nghyswllt pob cyfarfod cyffredinol y dull o bresenoldeb yn a chyfranogiad yn y cyfarfod yn cynnwys p'un ai a ddylid galluogi'r personau sydd â hawl i fynychu a chymryd rhan yn y cyfarfod i wneud hynny drwy gyfleuster neu gyfleusterau electronig.

C21 Ni fydd unrhyw fethiant damweiniol i gael unrhyw hysbysiad i unrhyw gyfranddeiliad yn annilysu'r trafodion yn y cyfarfod cyffredinol hwnnw.

C22 Gall 75 y cant o gyfranddeiliad gytuno, drwy gydsynio mewn ysgrifen neu drwy ddull cyfathrebu arall a gymeradwywyd gan y bwrdd, i gynnal cyfarfod cyffredinol gyda llai o hysbysiad nag sydd ei angen gan reol C20.

**Trafodion mewn cyfarfodyddydd cyffredinol**

C23

C23.1 Cyn y gall unrhyw gyfarfod cyffredinol ddechrau ei fusnes rhaid bod cworwm yn bresennol. Mae cworwm yn ddegfed ran yr holl gyfranddeiliaid, gydag isafrif o chwech ac uchafrif o 25.

C23.2 Fel rhan o'r cworwm mae'n rhaid i o leiaf ddau o gyfranddeiliaid fod yn bresennol yn bersonol. Gall cyfarfodydd cyffredinol ddigwydd mewn unrhyw fodd a thrwy unrhyw gyfrwng sy'n caniatau i'r rhai sy'n mynychu glywed a/neu ddeall, gwybod pwy sy'n siarad a rhoi sylwadau ar y trafodion. Bernir bod unrhyw berson sy'n mynychu yn y dull hwn yn

bresennol yn bersonol yn y cyfarfod p’un ai ydynt i gyd wedi yngynnull mewn un lle ai peidio.

C23.3 Os nad yw’r cyfranddeiliaid sy’n bresennol yn bersonol yn y cyfarfod yn yr un lle yna bernir y cynhaliwyd y cyfarfod yn swyddfa gofrestredig y gymdeithas.

C24 Caiff cyfarfod a gynhelir fel canlyniad i gais gan gyfranddeiliaid ei ddiddymu os nad oes digon o gyfranddeiliad yn bresennol hanner awr ar ôl i'r amser a nodwyd ar gyfer dechrau'r cyfarfod.

C25 Caiff pob cyfarfod cyffredinol arall heb ddigon o gyfranddeiliad yn bresennol eu gohirio i'r un diwrnod, ar yr un amser yn yr wythnos ddilynol ac yn yr un lleoliad (neu leoliad arall addas y bydd yr ysgrifennydd yn ei hysbysu i'r holl gyfranddeiliaid). Os oes llai na'r nifer o gyfranddeiliaid a nodir yn C23 yn bresennol o fewn hanner awr o'r amser y pennwyd i'r cyfarfod a ohiriwyd i fod wedi dechrau, bydd y cyfranddeiliaid hynny sy'n bresennol yn cynnal busnes y cyfarfod.

C26 Gall cadeirydd unrhyw gyfarfod cyffredinol:

C26.1 gymryd busnes y cyfarfod mewn unrhyw drefn y gall y cadeirydd benderfynu arno; a

C26.2 gohirio'r cyfarfod os yw mwyafrif y cyfranddeiliaid sy'n bresennol yn bersonol neu drwy ddirprwy yn cytuno. Dim ond materion a ohiriwyd o'r cyfarfod gwreiddiol y gall cyfarfod gohiriedig ei drafod. Mae cyfarfod gohiriedig yn barhad o'r cyfarfod gwreiddiol. Dyddiad pasio pob penderfyniad yw'r dyddiad y cawsant eu pasio (yn hytrach na dyddiad y cyfarfod gwreiddiol). Nid oes angen rhoi hysbysiad o ohiriad neu roi hysbysiad o'r busnes i gael ei drafod.

C27 Cadeirydd y bwrdd fydd yn llywyddu yn holl gyfarfodydd cyffredinol y gymdeithas. Os nad oes cadeirydd o'r fath neu os nad yw'r cadeirydd yn bresennol neu'n amharod i weithredu, bydd yr is-gadeirydd (os oes un) yn cadeirio'r cyfarfod, ac os metho hynny bydd y cyfranddeiliaid sy'n bresennol yn ethol cyfranddeiliad i gadeirio'r cyfarfod. Bydd y person a etholir yn aelod bwrdd os oes un yn bresennol ac yn fodlon gweithredu.

**Dirprwyon**

C28 Gall unrhyw gyfranddeiliad sydd â hawl i fynychu a phleidleisio mewn cyfarfod cyffredinol benodi person arall, p'un ai'n gyfranddeiliaid ai peidio, fel eu dirprwy i fynychu a phleidleisio ar eu rhan. Gellir penodi dirprwy drwy ddanfon penodiad ysgrifenedig a all fod yn electronig, i'r swyddfa gofrestredig, neu fan arall y gall y bwrdd ei ddewis ac a nodir yn hysbysiad y cyfarfod, o leiaf ddau ddiwrnod cyn dyddiad y cyfarfod y mae gan y dirprwy awdurdod i bleidleisio ynddo. Rhaid iddo gael ei lofnodi neu ei gymeradwyo gan y cyfranddeiliad neu dwrnai gydag awdurdod priodol. Bydd unrhyw ffurflen dirprwy sy'n cyrraedd yn hwyr yn annilys. Caiff unrhyw gwestiwn am ddilysrwydd dirprwy ei benderfynu gan gadeirydd y cyfarfod a bydd penderfyniad y cadeirydd yn derfynol.

**Pleidleisio**

C29 Yn amodol ar ddarpariaethau'r rheolau hyn neu unrhyw statud, caiff penderfyniad a roddir i bleidlais mewn cyfarfod cyffredinol, heblaw lle caiff pleidlais ei mynnu neu ei chyfarwyddo neu'n ofynnol dan y rheolau hyn, ei benderfynu drwy ddangos dwylo. Mewn pleidlais ddangos dwylo bydd gan bob cyfranddeiliad sy'n bresennol yn bersonol neu drwy ddirprwy un bleidlais. Mewn pleidlais gyfartal bydd gan gadeirydd y cyfarfod ail bleidlais neu bleidlais fwrw.

C30 Os na fynnir pleidlais (un ai cynt neu'n syth ar ôl y bleidlais), mae datganiad gan y cadeirydd y cafodd penderfyniad ar ddangos dwylo ei gario neu ei golli, yn unfrydol neu drwy fwyafrif neilltuol, yn derfynol. Bydd nodyn a wnaed i'r diben hwnnw yn y llyfr yn cynnwys cofnodion trafodion y gymdeithas yn dystiolaeth derfynol o'r ffaith honno.

C31 Caiff unrhyw gwestiwn os yw unrhyw bleidlais a wnaed yn bersonol neu drwy ddirprwy yn dderbyniol ei benderfynu gan gadeirydd y cyfarfod, a bydd penderfyniad y cadeirydd yn derfynol.

C32 Gall unrhyw dri gyfranddeiliad mewn cyfarfod (yn bersonol neu drwy ddirprwy) fynnu pleidlais ar benderfyniad neu yn ôl cyfarwyddyd y cadeirydd (a gall mynnu pleidlais neu gyfarwyddyd o'r fath gael ei dynnu'n ôl). Gellir mynnu neu gyfarwyddo pleidlais ar ôl dangos dwylo, ac os felly caiff y penderfyniad ei benderfynu gan y bleidlais.

C33 Gellir cynnal pleidlais ar y fath adeg ac yn y fath ddull a gyfarwyddir gan y cadeirydd. Bernir fod canlyniad pleidlais o'r fath yn benderfyniad y gymdeithas mewn cyfarfod cyffredinol.

C34 Yn amodol ar y Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol, bydd penderfyniad ysgrifenedig a lofnodwyd, a gymeradwywyd neu a gadarnhawyd drwy lythyr, ffacs neu gyfathrebiad electronig gan neu ar ran y mwyafrif gofynnol o gyfranddeiliaid, ar hynny o bryd, sydd â hawl i bleidleisio ar y penderfyniad perthnasol mor ddilys ac effeithlon â phenderfyniad a gaiff ei basio mewn cyfarfod a alwyd yn gywir a gyda chyfansoddiad cywir o gyfranddeiliaid cyn belled ag y cafodd copi o'r penderfyniad arfaethedig ei ddanfon yn unol â'r rheolau hyn i'r holl gyfranddeiliaid, a bod y mwyafrif gofynnol o gyfranddeiliaid a nodir yn rheol C35 wedi dangos eu cytundeb yn unol â'r rheolau hyn. Gall penderfyniad o'r fath a lofnodwyd neu a gymeradwywyd gynnwys mwy nag un ddogfen yn yr un ffurf, pob un wedi'i lofnodi neu eu cymeradwyo, gan un neu fwy o gyfranddeiliaid.

C35 Ar gyfer dibenion rheol C34 y mwyafrifoedd gofynnol yw:

- yn achos penderfyniad cyffredin, mwyafrif syml o gyfranddeiliaid a fyddai wedi bod â hawl i bleidleisio petai'r penderfyniad wedi ei gynnig mewn cyfarfod cyffredinol wedi'i alw a'i ffurfio'n gywir;
- yn achos penderfyniad sydd angen mwyafrif o ddau-draean y cyfranddeiliaid, o leiaf ddau-draean o'r cyfranddeiliaid a fyddai wedi bod â hawl i bleidleisio petai’r cynnig wedi ei gynnig mewn cyfarfod cyffredinol wedi'i alw a'i ffurfio'n gywir; neu
- yn achos penderfyniad sydd angen mwyafrif o dri-chwarter y cyfranddeiliaid o leiaf dri-chwarter y cyfranddeiliaid fyddai wedi bod â hawl i bleidleisio petai’r cynnig wedi ei gynnig mewn cyfarfod cyffredinol wedi'i alw a'i ffurfio'n gywir.

**Cynrychiolwyr ac enwebedigion**

C36 Dan ddarpariaethau'r rheolau hyn (yn cynnwys rheolau A3, A4, C2 a C4), nid oes gan unrhyw gyfranddeiliad hawl i eiddo'r gymdeithas yn rhinwedd y swydd honno, ac os yw'n marw bydd person yn peidio bod yn gyfranddeiliad, caiff eu cyfranddaliad ei ganslo a daw'r swm a dalwyd am y cyfranddaliad hwnnw yn eiddo'r gymdeithas. Mae'r dilynol yn gwneud darpariaethau ar gyfer cynrychiolwyr ac enwebedigion gan roi ystyriaeth i ddarpariaethau'r rheolau hyn:

C36.1 Mae darpariaeth yn y Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol y gall cyfranddeiliad enwebu person neu bersonau y caiff eiddo yn y gymdeithas adeg ei farwolaeth/marwolaeth gael eu trosglwyddo. Gan y bydd unrhyw gyfranddaliad o'r fath wedi ei ganslo, ni fydd gan unrhyw berson a enwebwyd felly dan

y Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol hawl i unrhyw eiddo'r cyfranddeiliad hwnnw ar eu marwolaeth.

C36.2 Ni fedrir trosglwyddo unrhyw eiddo i unrhyw gynrychiolydd personol cyfranddeiliad a fu farw.

C37 Os yw ymddiriedolydd mewn methdaliad neu gyfranddaliwr sy'n fethdalwr yn hawlio cyfranddaliad gan y cyfranddeiliad hwnnw, bydd y gymdeithas yn trosglwyddo cyfranddaliad o'r fath y mae gan yr ymddiriedolydd mewn methdaliad hawl iddi ac fel y gall yr ymddiriedolydd mewn methdaliad eu cyfarwyddo.

## RHAN D — Y BWRDD

**Swyddogaethau**

D1 Bydd gan y gymdeithas fwrdd (y cyfeirir ato fel "y bwrdd!" yn y rheolau hyn) fydd yn cyfarwyddo busnes y gymdeithas yn unol â'i hamcanion a rheolau ac yn sicrhau y caiff ei swyddogaethau eu perfformio'n gywir. Caiff y swyddogaethau hyn eu cytuno gan y bwrdd a chânt eu nodi ar wahân mewn cod llywodraethiant neu fel arall mewn ysgrifen.

**Cyfansoddiad y bwrdd**

D2. Bydd y bwrdd yn cynnwys rhwng [5] a [15] aelod bwrdd fel y penderfynir gan y bwrdd.

D3

D3.1 Ar wahân i aelodau a gyfetholwyd neu gyflogeion, dim ond cyfranddeiliaid all fod yn aelodau bwrdd.

D3.2 Gall y bwrdd gyfethol aelodau i wasanaethu ar y bwrdd ar y telerau a benderfynir gan y bwrdd a gall dynnu aelodau a gyfetholwyd yn y ffordd hon ond ni fydd uchafswm nifer yr aelodau bwrdd a'r rhai a gyfetholir yn fwy na [15[1]]. Gall person a gyfetholir weithredu ym mhob ffordd fel aelod o'r bwrdd, ond ni fedrant gymryd rhan yn y trafodaethau na phleidleisio ar ethol swyddogion y gymdeithas nac ar unrhyw fater sy'n effeithio'n uniongyrchol ar gyfranddeiliaid.

D3.3 Ni all y bwrdd gyfethol mwy na [pump] o bobl i'r bwrdd neu ar unrhyw bwyllgor ar unrhyw un amser.

D3.4 Gall y bwrdd benodi neu gyfethol unrhyw gyflogeion i'r Bwrdd ar y telerau a benderfynir gan y bwrdd ond ni cheir penodi na chyfethol i'r bwrdd os, yn dilyn eu penodiad neu eu cyfethol, y byddai cyflogeion mewn mwyafrif.

D4 Ar gyfer holl aelodau'r bwrdd ac aelodau a gyfetholwyd:

D4.1 Bydd y bwrdd yn gwneud ar gael i bob aelod a'r gymdeithas yr oblygiadau (yn cynnwys y safonau ymddygiad a ddisgwylir) gan bob aelod bwrdd ac aelodau a gyfetholwyd i'r bwrdd ac i'r gymdeithas. Bydd y bwrdd yn adolygu a gall newid goblygiadau aelodau bwrdd a'r aelodau a gyfetholwyd o bryd i'w gilydd.

D4.2 Ni chaniateir i unrhyw aelod bwrdd nac aelodau a gyfetholwyd weithredu nes y byddant wedi llofnodi a danfon datganiad i'r bwrdd a'r gymdeithas yn cadarnhau y byddant yn

[1] Dylai LCC ystyried beth sy'n faint hylaw ar gyfer ei fwrdd (yn cynnwys unrhyw aelodau a gyfetholir – gweler D3.2).

cyflawni eu goblygiadau (yn cynnwys y safonau ymddygiad a ddisgwylir). Gall y bwrdd amrywio ffurf y datganiad o bryd i'w gilydd.

D4.3 Bydd unrhyw aelod bwrdd neu aelod a gyfetholwyd na lofnododd ddatganiad o'r fath heb achos da o fewn un mis o'u hethol neu eu penodi i'r bwrdd neu, os yn ddiweddarach, o fewn un mis o fabwysiadu'r rheolau hyn, yn peidio â bod yn aelod bwrdd ar unwaith os nad yw'r bwrdd yn penderfynu peidio gweithredu'r rheol yma yng nghyswllt unrhyw aelod o'r bwrdd.

**Terfynu aelodaeth bwrdd**

D5 Ni all neb ddod neu barhau yn aelod bwrdd, yn aelod a gyfetholir na'n aelod o is-bwyllgor os ydynt ar unrhyw amser:

D5.1 wedi eu datgymhwyso rhag gweithredu fel cyfarwyddwr cwmni, neu fel aelod o fwrdd cymdeithas gofrestredig arall neu fel ymddiriedolydd elusen am unrhyw reswm; neu

D5.2 os cafwyd hwy yn euog o drosedd dditiadwy nad yw, neu na all fod, wedi darfod sydd, ym marn o leiaf ddau draean gweddill aelodau'r bwrdd, yn rhoi enw gwael i'r gymdeithas; neu

D5.3 wedi gwneud cyfansoddiad gyda chredydwyr y person dan sylw yn gyffredinol yn bodloni dyledion y person dan sylw; neu

D5.4 nad ydynt yn gyfranddeiliad (os nad ydynt yn aelod a gyfetholwyd neu na chânt eu cyflogi gan y gymdeithas neu aelod grŵp); neu

D5.5 eu bod wedi absenoli eu hunain o dri chyfarfod olynol o'r bwrdd neu bwyllgor (fel yw'r achos) mewn un cyfnod treigl o ddeuddeg mis heb ganiatâd absenoldeb arbennig gan y bwrdd; neu

D5.6 ymarferydd meddygol cofrestredig sy'n trin y person yn rhoi barn ysgrifenedig i'r gymdeithas yn datgan fod y person wedi dod yn analluog yn gorfforol neu'n feddyliol o weithredu fel aelod bwrdd, aelod a gyfetholwyd neu aelod pwyllgor ac y gall barhau felly am fwy na thri mis; neu

D5.7 os ydynt yn denant ac yn torri eu cytundeb tenantiaeth neu brydles mewn ffordd sylweddol neu ddifrifol ac yn methu unioni'r toriad hwnnw o fewn amserlen resymol a gytunwyd gyda'r gymdeithas neu sydd yn destun gorchymyn meddiant neu sydd wedi torri gorchymyn meddiant wedi'i ohirio neu'n destun unrhyw un o'r mathau dilynol o orchymyn llys: gorchymyn ymddygiad troseddol, gwaharddeb yn dilyn adran 1 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014, tenantiaeth israddedig neu orchymyn cau neu unrhyw orchymyn barnwrol arall (o ba bynnag enw) sydd ag effaith gyfartal; neu

D5.8 bod y gymdeithas wedi cael gorchymyn gan lys neu dribiwnlys cymwys yn eu herbyn am adennill arian sy'n ddyledus ganddynt i'r gymdeithas os yw'r gorchymyn wedi ei ohirio neu os yw'r gorchymyn am dalu mewn rhandaliadau mai dim ond os ydynt yn methu cyflawni telerau'r gorchymyn y byddant yn peidio bod yn aelod bwrdd, aelod a gyfetholwyd neu aelod pwyllgor; neu

D5.9 ar ôl bod yn denant adeg eu penodi fel aelod bwrdd neu aelod a gyfetholwyd, eu bod yn peidio bod yn denant os gall y bwrdd ar ei ddisgresiwn ganiatáu i berson o'r fath barhau yn aelod o'r bwrdd neu aelod a gyfetholwyd; neu

D5.10 ei bod yn gyflogai ac y caiff eu contract cyflogaeth gyda'r gymdeithas neu unrhyw aelod o'r grŵp ei derfynu am unrhyw reswm; neu

D5.11 yng nghyswllt unrhyw aelod anweithredol o’r bwrdd, bod telerau eu penodiad (sut bynnag y caiff ei enwi) gyda’r gymdeithas neu unrhyw aelod o’r grŵp yn cael ei derfynu yn unol â’u telerau,

a bydd unrhyw aelod bwrdd. aelod a gyfetholwyd neu aelod pwyllgor sydd ar unrhyw amser yn peidio cymhwyso dan y rheol yma yn peidio bod yn aelod bwrdd neu aelod pwyllgor (fel sy'n berthnasol) ar unwaith.

D6. Gall aelod bwrdd gael ei symud o'r bwrdd:

D6.1 drwy benderfyniad a gaiff ei basio gan o leiaf ddau-draean y cyfranddeiliaid sy’n bresennol ac yn pleidleisio mewn cyfarfod cyffredinol; neu

D6.2 drwy benderfyniad a gaiff ei basio gan ddau-draean aelodau'r bwrdd sy'n bresennol ac yn pleidleisio mewn cyfarfod o'r bwrdd yn eithrio’r aelod bwrdd y cynigir ei symud ac yn eithrio unrhyw aelodau a gyfetholwyd a chyflogeion, os bodlonir yr amodau dilynol:

- rhoddwyd o leiaf 14 diwrnod o'r penderfyniad arfaethedig i holl aelodau'r bwrdd; a
- bod yr hysbysiad yn nodi mewn ysgrifen y rheswm dros y symud; a
- bod y bwrdd yn fodlon fod y rhesymau yn cyfiawnhau'r symud.

D7 Gall aelod bwrdd ymddiswyddo drwy roi hysbysiad ysgrifenedig o ymddiswyddiad.

**Cyfnodau swydd ac ethol i'r bwrdd**

D8 Ym mhob hysbysiad o gyfarfod cyffredinol blynyddol bydd y bwrdd yn nodi'r aelodau hynny o'r bwrdd sy'n parhau yn eu swyddi a'r ymgeiswyr hynny sy'n bwriadu cynnig eu hunain ar gyfer etholiad.

D9 Caiff pob aelod bwrdd a etholir dan reol D12 eu hethol yn unol ag unrhyw bolisïau aelodaeth bwrdd a fabwysiadwyd gan y bwrdd o bryd i'w gilydd, a chânt eu hethol am gyfnod swydd penodol a ddaw i ben ar ddiwedd cyfarfod cyffredinol blynyddol (pob un yn "gyfnod penodol") heb fod yn hwyrach na'r trydydd cyfarfod o'r fath yn dilyn eu penodiad. Ni chaiff unrhyw gyfnod penodol ei osod a fyddai'n achosi i'r aelod perthnasol o'r bwrdd wasanaethau tu hwnt i'w nawfed cyfarfod cyffredinol blynyddol yn olynol [os nad yw’r bwrdd yn penderfynu bod amgylchiadau’n bodoli lle byddai er budd gorau’r gymdeithas i aelod bwrdd wasanaethu am gyfnod hirach][2]. Ar gyfer dibenion Rheol D9, caiff amser a dreuliwyd fel aelod a gyfetholwyd ar fwrdd y gymdeithas neu bwyllgor o’r gymdeithas) a/neu amser a wasanaethwyd fel aelod bwrdd neu fel aelod a gyfetholwyd ar fwrdd neu bwyllgor aelod arall o’r grŵp neu ar fwrdd neu bwyllgor unrhyw ragflaenydd i'r gymdeithas neu aelod arall o'r grŵp ei gyfrif.

D10 Pryd bynnag y bydd nifer yr aelodau bwrdd yn is na’r nifer a ganiateir gan y rheolau hyn, gall y bwrdd benodi aelod arall i'r bwrdd. Bydd unrhyw aelod bwrdd a benodir fel hyn yn ymddeol yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol nesaf.

D11

D11.1 Ym mhob cyfarfod cyffredinol blynyddol bydd pob aelod bwrdd a wasanaethodd eu cyfnod penodol yn ymddeol o'u bwrdd. Bydd unrhyw aelod bwrdd sy'n ymddeol o'r bwrdd mewn cyfarfod cyffredinol blynyddol dan y rheol yma D11 yn gymwys i'w hailethol yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau a gynhwysir yn y rheolau yma;

---

[2] Dylai byrddau ystyried yn ofalus os yw’n briodol defnyddio’r pŵer hwn a sicrhau fod y cofnodion yn nodi’r cyfiawnhad dros ddefnyddio’r pŵer. Bydd angen rhoi ystyriaeth i gyfnod yr estyniad. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai estyniad o ddim mwy na 12 mis yn briodol.

D11.2 Ni fydd unrhyw aelod bwrdd sy'n ymddeol dan reol D11.1 ar ôl cwblhau naw mlynedd yn olynol o wasanaeth parhaus (neu naw mlynedd o wasanaeth parhaus ynghyd ag unrhyw gyfnod estynedig a gytunwyd gan y bwrdd dan reol D9) ar naill ai fwrdd y gymdeithas a/neu fwrdd aelod o'r grŵp (neu unrhyw ragflaenydd) yn gymwys i gael ei ailethol am o leiaf dair blynedd.

D12

D12.1 Caiff aelodau bwrdd eu hethol yn unol â meini prawf dethol agored a thryloyw a gweithdrefnau etholiad a osodir ac a gyhoeddir o bryd i'w gilydd gan y bwrdd[3];

D12.2 Bydd y bwrdd yn gosod ac yn cyhoeddi meini prawf dethol yng nghyswllt ymgeiswyr sy'n dymuno sefyll etholiad fel aelodau bwrdd yn cynnwys datganiad o'r sgiliau, nodweddion a phrofiad sydd eu hangen gan y bwrdd ymysg ei aelodau. Gall hyn ddarparu ar gyfer darpar ymgeiswyr i gael eu cymeradwyo gan y bwrdd cyn iddynt fod yn gymwys i sefyll ar gyfer etholiad fel aelodau bwrdd;

D12.3 Bydd y bwrdd, yn unol â'r gweithdrefnau etholiad a nodir dan reol D12.1 yn ymdrechu i sicrhau fod gan y bwrdd yr ansawdd, sgiliau, cymwyseddau a phrofiad y mae'r bwrdd wedi penderfynu o bryd i'w gilydd ei fod eu hangen;

D12.4 Mewn etholiadau ar gyfer aelodau bwrdd os nad yw nifer yr ymgeiswyr ar gyfer etholiad fel aelodau bwrdd yn fwy na'r nifer o leoedd gwag ar y bwrdd bydd y cadeirydd yn datgan y cafodd yr ymgeiswyr hynny eu hethol yn briodol. Os yw nifer yr ymgeiswyr yn fwy na'r nifer o leoedd gwag bydd y cyfarfod yn ethol yr aelodau bwrdd drwy bleidlais mewn modd a gyfarwyddir gan y cadeirydd yn unol gyda'r gweithdrefnau a nodir dan reol D12.1;

D12.5 Mewn etholiad ar gyfer ymgeiswyr sy'n dymuno bod yn aelodau bwrdd mewn cyfarfod cyffredinol bydd gan bob cyfranddeiliad sy'n bresennol yn bersonol neu drwy ddirprwy un bleidlais am bob swydd wag ond ni fydd yn rhoi mwy nag un bleidlais i unrhyw un ymgeisydd.

**Cworwm y bwrdd**

D13 Yn amodol ar ddarpariaethau rheol D14 bydd tri aelod bwrdd yn ffurfio cworwm. Gall y bwrdd benderfynu ar nifer uwch neu osod gofynion ychwanegol. Ni fydd gan y bwrdd gworwm os nad yw aelodau'r bwrdd sy'n gyflogeion y gymdeithas yn lleiafrif.

D14. Os yw nifer a math yr aelodau bwrdd yn is na'r nifer a'r math sydd eu hangen ar gyfer cworwm, gall yr aelodau eraill o'r bwrdd barhau i weithredu fel bwrdd am uchafswm cyfnod o chwe mis a chaiff darpariaethau D13 eu gohirio am y cyfnod hwnnw. Ar ddiwedd y cyfnod hwnnw yr unig bŵer y gall y bwrdd ei weithredu yw cynyddu nifer a chyfansoddiad aelodau bwrdd i'r hyn sy'n ofynnol dan y rheolau hyn.

**Buddiant aelodau bwrdd**

[3] Dylai Byrddau sicrhau eu bod yn rhoi ystyriaeth i'r darpariaethau yn Neddf Rheoliad Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2018, y Fframwaith Rheoleiddiol a'r Cod Llywodraethiant dethol wrth baratoi eu meini prawf ar gyfer dethol a'r gweithdrefnau etholiadol.

D15 Ni chaniateir i unrhyw aelod bwrdd, aelod a gyfetholwyd neu aelod o bwyllgor fod â budd ariannol mewn unrhyw gontract neu unrhyw drafodion eraill gyda'r gymdeithas neu unrhyw aelod grŵp arall, neu gael budd gan y gymdeithas, os nad yw unrhyw fudd o'r fath:

D15.1 yn cael ei ganiatáu'n benodol dan y rheolau hyn neu ei ganiatáu gan unrhyw ddeddfwriaeth, penderfyniad, manyleb cyfarwyddyd gan y rheoleiddiwr o bryd i'w gilydd.

D15.2 yn torri, neu'n anghyson gyda, unrhyw benderfyniad, cyfarwyddyd, safon neu god a gyhoeddir gan y rheoleiddiwr neu unrhyw god ymddygiad a/neu lywodraethiant a fabwysiedir gan y bwrdd.

D16 Bydd unrhyw aelod bwrdd, aelod a gyfetholwyd neu aelod o bwyllgor sydd â budd mewn unrhyw drefniant rhwng y gymdeithas a rhywun arall yn datgelu eu budd cyn i'r mater gael ei drafod gan y bwrdd neu unrhyw bwyllgor. Mae'n rhaid i ddatgeliad o'r fath gydymffurfio gydag unrhyw god ymddygiad a/neu lywodraethiant a fabwysiedir gan y bwrdd o bryd i'w gilydd. Os nad yw'r rheolau hyn yn caniatáu hynny'n benodol ni fyddant yn parhau'n bresennol (os nad yw'r bwrdd neu'n bwyllgor yn gofyn iddynt wneud hynny) ac ni fydd ganddynt unrhyw bleidlais ar y mater dan sylw.

D17 Yn amodol ar reol D18, os oes cwestiwn yn codi mewn cyfarfod o aelodau bwrdd neu bwyllgor o aelodau bwrdd am hawl aelod bwrdd, aelod a gyfetholwyd neu aelod o bwyllgor i gymryd rhan yn y cyfarfod (neu ran o'r cyfarfod) ar gyfer dibenion pleidleisio neu gworwm, cyn diwedd y cyfarfod gellir cyfeirio'r cwestiwn at y cadeirydd neu gadeirydd y pwyllgor fel sy'n berthnasol, a bydd ei benderfyniad yng nghyswllt unrhyw aelod bwrdd, aelod a gyfetholwyd neu aelod pwyllgor heblaw'r cadeirydd yn derfynol.

D18 Os bydd unrhyw gwestiwn am yr hawl i gymryd rhan yn y cyfarfod (neu ran o'r cyfarfod) yn codi yng nghyswllt y cadeirydd neu gadeirydd y pwyllgor, caiff y cwestiwn ei benderfynu gan benderfyniad aelodau'r bwrdd neu aelodau pwyllgor yn y cyfarfod hwnnw, ac ar gyfer y diben hwnnw ni chaiff y cadeirydd neu gadeirydd y pwyllgor ei gyfrif fel bod yn cymryd rhan yn y cyfarfod (neu'r rhan honno o'r cyfarfod) ar gyfer dibenion pleidleisio neu gworwm.

D19 Ni ddylai unrhyw benderfyniad gan y bwrdd neu bwyllgor fod yn annilys oherwydd y darganfyddir yn ddiweddarach fod budd y dylid fod wedi'i ddatgan.

D20 Bydd pob aelod bwrdd, aelod a gyfetholwyd ac aelod o bwyllgor yn sicrhau fod gan yr ysgrifennydd restr ar bob amser o:

D20.1 yr holl gyrff eraill y mae ganddynt fudd arwyddocaol a sylweddol ynddynt fel:

- cyfarwyddwr neu swyddog; neu
- aelod o gwmni; neu
- swyddog neu aelod etholedig unrhyw gorff statudol; neu
- perchennog neu reolydd mwy na dau y cant o gwmni y caiff ei gyfranddaliadau eu nodi'n gyhoeddus neu fwy na deg y cant o unrhyw gwmni arall; neu

D20.2 unrhyw eiddo y mae'r gymdeithas yn berchennog arno neu'n cael ei reoli y maent yn preswylio ynddo.

D21 Dylai pob aelod bwrdd, aelod a gyfetholwyd ac aelod o bwyllgor sicrhau fod gan yr ysgrifennydd ar bob amser hefyd restr o fuddiant arwyddocaol neu sylweddol arall a fyddai ac neu a fedrai ym mhob achos effeithio ar unrhyw drefniant gyda'r gymdeithas.

D22 Os yw mwyafrif y bwrdd neu fwyafrif aelodau pwyllgor neu gyfarfod a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer y diben hwnnw yn gofyn, bydd aelod bwrdd, aelod a gyfetholwyd neu aelod o bwyllgor sy'n methu datgelu budd fel sydd ei angen gan y rheolau hyn yn gadael ei swydd un ai'n barhaol neu am gyfnod yn ôl cyfarwyddyd y bwrdd.

D23 Serch rheol D15, gall y gymdeithas:

D23.1 dalu treuliau a awdurdodwyd yn gywir i aelodau bwrdd ac aelodau pwyllgorau pan y'u gwnaethpwyd mewn gwirionedd ar fusnes y gymdeithas;

D23.2 talu premiwm yswiriant yng nghyswllt yswiriant a gymerwyd i yswirio swyddogion a chyflogeion; a

D23.3 thalu lwfansau, iawndal am golli enillion, buddion grant neu gydnabyddiaeth ariannol a ffioedd i aelodau bwrdd, aelodau a gyfetholwyd ac aelodau pwyllgorau ar yr amod y caiff unrhyw daliad neu fuddiant o'r math eu caniatáu'n benodol (neu heb eu gwahardd gan) unrhyw ddeddfwriaeth, penderfyniad, manyleb neu gyfarwyddyd perthnasol gan y rheoleiddiwr.

D24 Ni fydd gan aelod bwrdd, aelod a gyfetholwyd neu aelod o bwyllgor unrhyw fudd ar gyfer diben rheolau D15 i D21 fel aelod bwrdd, cyfarwyddwr neu swyddog aelod o'r grŵp.

D25 Ni fernir fod gan aelodau bwrdd, aelodau a gyfetholwyd neu aelodau pwyllgorau sy'n breswylwyr y gymdeithas unrhyw fudd ar gyfer dibenion rheolau D15 i D21 mewn unrhyw benderfyniad sy'n effeithio ar y cyfan neu grŵp sylweddol o breswylwyr y gymdeithas.

D26 Nid yw dyfarnu tenantiaeth, trwydded neu brydles gan y gymdeithas ar gyfarwyddyd corff arall neu ar sail sy'n gyson gydag unrhyw ganllawiau, penderfyniad neu god ymarfer perthnasol gan y rheoleiddiwr (neu unrhyw god ymddygiad a/neu lywodraethiant y bwrdd o bryd i'w gilydd, a fabwysiadwyd gan y bwrdd) i aelod bwrdd, aelod a gyfetholwyd neu aelod o bwyllgor yn ddyfarniad o fudd ar gyfer diben rheolau D15.

**Cyfarfodydd y bwrdd**

D27 Bydd y bwrdd yn cwrdd o leiaf deirgwaith ym mhob blwyddyn galendr. Bydd yr ysgrifennydd (neu swyddog arall yn unol â'r trefniadau cymeradwy) yn rhoi o leiaf saith diwrnod o hysbysiad ysgrifenedig a ddosberthir gyda llaw (neu ei anfon drwy'r post neu gyfathrebiad electronig) i holl aelodau'r bwrdd ac aelodau a gyfetholwyd. Gall y bwrdd gytuno ar hysbysiad byrrach lle mae dim llai na 75 y cant o aelodau'r bwrdd yn cytuno i hynny.

D28 Gall yr ysgrifennydd, neu'r cadeirydd, neu ddau aelod o fwrdd sy'n rhoi hysbysiad ysgrifenedig yn nodi'r busnes i'w gynnal alw cyfarfodydd o'r bwrdd. Bydd yr ysgrifennydd yn anfon hysbysiad ysgrifenedig at holl aelodau'r bwrdd cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl derbyn cais o'r fath. Yn dilyn y cais, bydd yr ysgrifennydd yn galw cyfarfod gydag o leiaf saith diwrnod ond nid mwy na 14 diwrnod o rybudd i drafod y busnes a nodwyd. Os yw'r ysgrifennydd yn methu galw cyfarfod o'r fath yna bydd y cadeirydd, neu ddau aelod bwrdd, pa bynnag yw'r achos, yn galw cyfarfod o'r fath.

**Argaeledd datganiadau neilltuol gan y bwrdd**

D29 Bydd y bwrdd yn cytuno ac yn darparu:

- datganiad y bwrdd o werthoedd ac amcanion y gymdeithas;
- datganiad o oblygiadau cyfredol aelodau bwrdd i'r bwrdd a'r gymdeithas;
- y polisi ar dderbyn cyfranddeiliaid newydd.

Gall y bwrdd amrywio ffurf y datganiadau hyn o bryd i'w gilydd.

**Rheolaeth a dirprwyo**

D30 Gall y bwrdd ddirprwyo unrhyw bwerau dan gylch gorchwyl ysgrifenedig i'w bwyllgorau neu i swyddogion neu gyflogeion. Caiff y pwerau hyn eu gweithredu yn unol ag unrhyw gyfarwyddiadau ysgrifenedig a roddwyd gan y bwrdd.

D31 Gall y bwrdd gadw rhai materion sylweddol i'w hunan na fedrir eu dirprwyo i bwyllgorau neu gyflogeion.

D32 Bydd y bwrdd yn penderfynu ar aelodaeth unrhyw bwyllgor. Bydd pob pwyllgor yn cynnwys un aelod bwrdd. Bydd y bwrdd yn penodi cadeirydd unrhyw bwyllgor ac yn pennu'r cworwm.

D33 Caiff holl weithredoedd a thrafodion unrhyw bwyllgor eu hadrodd i'r bwrdd.

D34 Ni all unrhyw bwyllgor wneud gwariant ar ran y gymdeithas os nad oes o leiaf un aelod bwrdd ar y pwyllgor wedi pleidleisio o blaid y penderfyniad a bod y bwrdd yn flaenorol wedi cymeradwyo cyllideb ar gyfer y gwariant perthnasol.

**Darpariaethau amrywiol**

D35 Bydd pob penderfyniad didwyll a gymerir mewn cyfarfod o'r bwrdd neu gyfarfod pwyllgor yn ddilys hyd yn oed os canfyddir wedyn fod nam yn y ffordd y cafodd y cyfarfod ei alw neu y penodwyd aelodau mewn cyfarfod.

D36 Bydd unrhyw benderfyniad a anfonir at holl aelodau'r bwrdd neu holl aelodau pwyllgor a lofnodwyd neu a gadarnhawyd yn electronig gan dri chwarter aelodau'r bwrdd neu dri chwarter aelodau pwyllgor mor ddilys ac effeithlon ag y byddai pe bai yn cael ei basio mewn cyfarfod o'r bwrdd neu bwyllgor a gafodd ei alw'n gywir a gyda chyfansoddiad cywir a gall gynnwys dogfennau yn yr un ffurf a lofnodwyd neu a gadarnhawyd drwy gyfathrebu electronig gan un neu fwy o bersonau.

D37 Gellir cynnal cyfarfodydd o'r bwrdd neu bwyllgor mewn unrhyw ddull a thrwy unrhyw gyfrwng sy'n galluogi'r rhai sy'n bresennol i glywed a/neu ddeall a gwybod pwy yw’r siaradwyr a rhoi sylwadau ar y trafodion. Bernir y bydd unrhyw berson sy'n mynychu yn y ffordd yma yn bresennol yn y cyfarfod a ph'un ai yw pawb wedi ymgynnull mewn un lle ai peidio.

D38 Gellir rhoi hysbysiad i aelodau bwrdd, aelodau a gyfetholwyd neu aelodau pwyllgor yn unol â rheol G16. Ni fydd methiant damweiniol i roi hysbysiad i aelod bwrdd, aelod a gyfetholwyd neu aelod o bwyllgor neu fethiant aelod bwrdd, aelod a gyfetholwyd neu aelod o bwyllgor i dderbyn hysbysiad o'r fath yn gwneud trafodion y bwrdd yn annilys.

D39 Gall y bwrdd, drwy bŵer atwrnai neu fel arall, benodi unrhyw berson i fod yn asiant y gymdeithas ar gyfer dibenion o'r fath ac ar amodau y byddant yn eu penderfynu o bryd i'w gilydd, yn cynnwys awdurdod i'r asiant ddirprwyo'r cyfan neu unrhyw rai o'u pwerau.

**RHAN E CADEIRYDD, IS-GADEIRYDD, PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL, YSGRIFENNYDD A SWYDDOGION ERAILL**

**Y cadeirydd**

E1 Bydd gan y gymdeithas gadeirydd, fydd yn cadeirio cyfarfodydd o'r bwrdd, ac a etholir gan y bwrdd ar delerau y mae'r bwrdd yn penderfynu arnynt. Gall y gymdeithas hefyd fod ag is-gadeirydd a fydd, yn absenoldeb y cadeirydd, yn gweithredu fel cadeirydd ac a fydd â phwerau a dyletswyddau'r cadeirydd ac a etholir gan y bwrdd. Y bwrdd fydd yn penderfynu ar y trefniadau ar gyfer ethol a symud unrhyw is-gadeirydd.

E2 Yr eitem gyntaf o fusnes ar gyfer unrhyw gyfarfod bwrdd lle nad oes cadeirydd (neu is-gadeirydd) neu os nad yw'r cadeirydd (neu'r is-gadeirydd) yn bresennol fydd ethol cadeirydd ar gyfer diben y cyfarfod. Bydd y cadeirydd bob amser yn gyfranddeiliad ac yn aelod bwrdd ac ni all fod yn gyflogedig gan y bwrdd.

E3 Os bydd y pleidleisiau'n gyfartal, bydd gan y cadeirydd ail bleidlais.

E4 Gall cadeirydd y gymdeithas gael ei symud mewn cyfarfod o'r bwrdd a alwyd ar gyfer y diben hwnnw os caiff y penderfyniad ei basio gan o leiaf ddau-draean aelodau'r bwrdd sy'n bresennol ac yn pleidleisio yn y cyfarfod.

**Cyfrifoldebau'r cadeirydd**

E5 Bydd y bwrdd yn nodi mewn ysgrifen beth yw dyletswyddau a chyfrifoldebau'r cadeirydd a gall eu hadolygu o bryd i'w gilydd.

**Y prif swyddog gweithredol**

E6 Gall y gymdeithas fod â phrif swyddog gweithredol a benodir gan y bwrdd. Penodir y prif swyddog gweithredol gyda chontract cyflogaeth ysgrifenedig ac wedi'i lofnodi fydd yn cynnwys datganiad clir o ddyletswyddau'r prif swyddog gweithredol.

**Yr ysgrifennydd**

E8 Bydd gan y gymdeithas ysgrifennydd a benodir gan y bwrdd ac a all fod yn gyflogedig gan y gymdeithas. Gall y bwrdd hefyd benodi dirprwy ysgrifennydd (a all hefyd fod yn gyflogedig gan y gymdeithas) i weithredu fel ysgrifennydd yn absenoldeb yr ysgrifennydd. Bydd y bwrdd yn cytuno ac yn nodi'n glir mewn ysgrifen beth yw dyletswyddau'r ysgrifennydd.

**Swyddogion eraill**

E9 Gall y bwrdd ddynodi fel swyddogion unrhyw swyddogion gweithredol eraill, archwilydd mewnol a staff y gymdeithas ar y telerau (yn cynnwys tâl) y gall benderfynu arnynt o bryd i'w gilydd.

**Amrywiol**

E10 Caiff pob swyddog neu berson a gyflogir gan y gymdeithas ei hindemnio ganddi am unrhyw swm rhesymol wrth weithredu eu dyletswydd.

E11 Heblaw am ganlyniadau eu hanonestrwydd neu eu hesgeulustod eu hunain, ni fydd unrhyw aelod bwrdd, swyddog neu berson a gyflogir gan y gymdeithas yn gyfrifol am unrhyw golledion a gaiff eu dioddef gan y gymdeithas nac unrhyw aelod o'r grŵp.

## RHAN F — RHEOLAETH ARIANNOL AC ARCHWILIO

**Archwilydd**

F1 Os yw'n ofyniad cyfreithiol arni i wneud hynny, bydd y gymdeithas yn penodi archwilydd neu gwmni o archwilwyr i weithredu ym mhob blwyddyn ariannol. Mae'n rhaid iddynt fod wedi cymhwyso fel y manylir yn Adran 91 y Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol.

F2 Ni all y dilynol weithredu fel archwilydd:

F2.1 swyddog neu berson a gyflogir gan y gymdeithas;
F2.2 person a gyflogir gan neu sy'n cyflogi partner, swyddog neu berson a gyflogir gan y gymdeithas.

F3 Gellir penodi archwilydd y gymdeithas gan y bwrdd neu drwy benderfyniad cyfranddeiliaid.

F4 Lle penodir archwilydd i archwilio'r cyfrifon am y flwyddyn flaenorol, cânt eu hailbenodi i archwilio cyfrifon y flwyddyn gyfredol hefyd os nad yw:

F4.1 cyfarfod cyffredinol wedi penodi rhywun arall i weithredu neu wedi penderfynu na all yr archwilydd weithredu; neu
F4.2 nad yw'r archwilydd yn dymuno gweithredu ac wedi hysbysu'r gymdeithas mewn ysgrifen am hynny; neu
F4.3 os yw'r person heb fod â chymwysterau neu'n disgyn o fewn rheol F2 (uchod); neu
F4.4 os yw'r archwilydd wedi dod yn analluog i weithredu; neu
F4.5 y rhoddwyd hysbysiad i benodi archwilydd arall.

F5

F5.1 Rhoddir dim llai na 28 diwrnod o rybudd ar gyfer penderfyniad i benodi person arall fel archwilydd; neu i wahardd ailbenodi archwilydd sy'n ymddeol;
F5.2 bydd y gymdeithas yn anfon copi o'r penderfyniad i'r archwilydd sy'n ymddeol a hefyd yn rhoi hysbysiad i'w chyfranddeiliaid ar yr un pryd ac yn yr un modd, os yn bosibl;
F5.3 os na, bydd y gymdeithas yn rhoi hysbysiad drwy hysbysebu mewn papur newydd lleol o leiaf 14 diwrnod cyn y cyfarfod arfaethedig. Gall yr archwilydd sy'n ymddeol roi sylwadau i'r gymdeithas ac mae'n rhaid hysbysu'r cyfranddeiliaid o hynny dan Adran 95 Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol.

**Dyletswyddau Archwilydd**

F6 Caiff canfyddiadau'r archwilydd eu hadrodd i'r gymdeithas, yn unol ag Adran 87 y Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Budd Cymunedol.

F7 Bydd y bwrdd yn paratoi cyfrif refeniw a mantolen a gaiff eu harchwilio gan yr archwilydd, os oes angen, ac adroddiad yr archwilydd, os oes angen, ym mhob cyfarfod cyffredinol blynyddol. Bydd y bwrdd hefyd yn llunio adroddiad ar fusnes y gymdeithas a gaiff ei lofnodi gan y person sy'n cadeirio'r cyfarfod sy'n mabwysiadu'r adroddiad.

**Gofynion cyfrifeg**

F8 Rhaid i ddiwedd y flwyddyn gyfrifeg fod yn ddyddiad a ganiateir gan y cofrestrydd.

F9 Bydd y gymdeithas yn cadw llyfrau cyfrifon cywir yn rhoi manylion ei thrafodion, ei hasedau a'i hymrwymiadau, yn unol ag Adrannau 75 a 76 y Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Budd Cymunedol.

F10 Bydd y gymdeithas yn sefydlu ac yn cynnal systemau boddhaol o reoli ei llyfrau cyfrif, ei harian a'i hollol dderbyniadau a thaliadau.

**Dychwelebau blynyddol a mantolenni**

F11 Bob blwyddyn, o fewn y cyfnod a nodir mewn deddfwriaeth, bydd yr ysgrifennydd yn anfon dychweleb flynyddol y gymdeithas i'r cofrestrydd. Caiff y ddychweleb ei pharatoi'n unol â'r cyfnod a nodir yn y Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Budd Cymunedol, neu ddyddiad arall a ganiateir gan y cofrestrydd a chaiff ei chyflwyno o fewn y cyfnod sy'n ofynnol gan y gyfraith. Dylai adroddiad yr archwilydd fod ynghlwm â'r ddychweleb flynyddol, os bo angen, am gyfnod y ddychweleb a'r mantolenni y mae'n cyfeirio atynt.

**Benthyciadau**

F12 Ni fydd cyfanswm benthyciadau'r gymdeithas ar unrhyw amser yn fwy na £1000 miliwn (mil o filiynnau) o bunnoedd sterling neu swm mwy y mae'r gymdeithas yn penderfynu arno o bryd i'w gilydd mewn cyfarfod cyffredinol. Ar gyfer diben y rheol yma F12, ar unrhyw amser perthnasol caiff unrhyw swm o fenthyciadau'r gymdeithas mewn unrhyw arian cyfred heblaw punnoedd sterling (a gaiff eu caniatáu neu heb fod wedi'u gwahardd gan y rheoleiddiwr o bryd i'w gilydd) eu trosi i sterling ar y gyfradd neu gyfraddau cyfnewid sy'n weithredol dan y trafodion deilliadol cysylltiedig lle mae'r gymdeithas wedi ymddiogelu ei hunan rhag bod yn agored i symudiadau mewn cyfradd cyfnewid arian cyfred yng nghyswllt prif swm benthyciadau o'r fath neu, os nad oes unrhyw drafodion deilliadol cysylltiedig â chyfradd ar gyfer ymddiogelu rhag bod yn agored, ar y gyfradd gyfnewid sy'n weithredol ar yr amser y gwnaed y benthyciadau.

F13 Ni fydd y gyfradd log sy'n daladwy adeg y cytunir ar delerau benthyca ar unrhyw arian a fenthycir yn fwy na'r gyfradd log sydd, ym marn y bwrdd, yn rhesymol gan roi ystyriaeth i delerau'r benthyciad. Gall y bwrdd ddirprwyo penderfyniad y gyfradd log dan sylw o fewn terfynau penodol i swyddog, aelod bwrdd neu bwyllgor.

F14

F14.1 Yng nghyswllt unrhyw fenthyca arfaethedig, ar gyfer dibenion rheol F12 ac yng nghyswllt y swm nas rhyddhawyd o unrhyw log gohiriedig neu arian cysylltiedig â'r mynegai neu symiau ar unrhyw warant disgownt dwfn a fenthycwyd yn flaenorol gan y gymdeithas, bernir mai swm y benthyca sy'n bodoli'n flaenorol yw'r swm sydd ei angen i ad-dalu unrhyw fenthyca yn bodoli'n flaenorol yn llawn pe byddai'r benthyca sy'n bodoli eisoes yn dod yn ad-daladwy yn llawn adeg y benthyca arfaethedig.

F14.2 ar gyfer dibenion rheol F13 yng nghyswllt unrhyw fenthyca arfaethedig y bwriedir iddo fod ar delerau llog gohiriedig neu gysylltiedig â'r mynegai neu ar unrhyw warant disgownt dwfn bernir mai swm y benthyciad fydd trafodion unrhyw fenthyca arfaethedig o'r fath sy'n dderbyniadwy gan y gymdeithas adeg y benthyca arfaethedig; a

F14.3 nid yw'n rhaid i unrhyw berson sy'n delio'n ddidwyll gyda'r gymdeithas wybod os cydymffurfiwyd gyda rheol F12 neu F13 neu'r rheol hon F14.

**Buddsoddiadau**

F15 Gall cronfeydd, neu arian a fenthycwyd gan, y gymdeithas gael eu buddsoddi gan y bwrdd mewn dull y mae'n penderfynu arno ac fel y caniateir gan y Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Budd Cymunedol.

**Cyfraniadau**

F16 Gall y gymdeithas dderbyn gan unrhyw berson, p'un ai'n aelod neu beidio, gyfraniadau i hyrwyddo dibenion y gymdeithas.

## Rhan G AMRYWIOL

**Swyddfa gofrestredig ac enw cofrestredig**

G1 Swyddfa gofrestredig y gymdeithas yw:

G2 Rhaid i enw cofrestredig y gymdeithas gael ei:

G2.1 ddangos mewn lle amlwg tu allan i bob swyddfa neu fan busnes; a

G2.2 chael ei engrafu ar ei sêl; a

G2.3 chael ei nodi ar ei lythyrau busnes, hysbysiadau, hysbysebion, cyhoeddiadau swyddogol, sieciau, anfonebau, gwefan ac unrhyw gyfathrebiad corfforaethol ffurfiol arall p'un ai electronig neu fel arall.

**Anghydfod**

G3 Gall unrhyw anghydfod ar fater sy'n dod o fewn y rheolau ei atgyfeirio gan y naill barti neu'r llall i gyfryngydd annibynnol gyda chymwysterau addas i gael eu setlo. Penodir y cyfryngydd drwy gytundeb rhwng y partïon, neu os na fydd cytundeb, gan y Ganolfan ar gyfer Datrys Anghydfodau'n Effeithlon (neu unrhyw gorff sy'n ei olynu o bryd i'w gilydd). Cynhelir y cyfryngu yn unol â gofynion y cyfryngydd. Bydd yn oblygiad ar y ddau barti i gydymffurfio a chydweithredu gyda'r weithdrefn hon ar bob cam ac i rannu'n gyfartal gostau penodi'r cyfryngydd perthnasol fel y cyfeirir ato uchod. Caiff y costau wedyn eu talu fel y bydd y cyfryngydd yn penderfynu. Lle na chaiff anghydfod ei ddatrys gan gyfryngu, caiff unrhyw hawliad ei drin yn y llys sirol a fydd â'r awdurdodaeth lwyr dros unrhyw anghydfod sy'n deillio dan y rheolau.

**Cofnodion, sêl, cofrestri a llyfrau**

G4 Caiff cofnodion yr holl gyfarfodydd cyffredinol a holl gyfarfodydd y bwrdd a phwyllgorau eu cofnodi, eu cytuno yn y cyfarfod dilynol perthnasol a'u llofnodi gan gadeirydd y cyfarfod dilynol a'u storio'n ddiogel.

G5 Yr ysgrifennydd fydd yn cadw'r sêl. Ni chaiff ei defnyddio heblaw dan awdurdod y bwrdd. Rhaid ei gosod drwy i un aelod bwrdd lofnodi a'r ysgrifennydd wrthlofnodi neu mewn ffordd arall y mae'r

bwrdd yn penderfynu arno. Gall y bwrdd awdurdodi gweithredu trafodion mewn unrhyw ffordd a ganiateir gan y gyfraith.

G6 Mae'n rhaid i'r gymdeithas gadw yn ei swyddfa gofrestredig:

G6.1 y gofrestr o gyfranddeiliaid yn dangos:
- enw a chyfeiriadau'r holl gyfranddeiliaid; a
- datganiad o'r holl gyfranddaliadau a ddelir gan bob cyfranddeiliad a'r swm a dalwyd amdanynt; a
- datganiad o eiddo arall yn y gymdeithas a ddelir gan y cyfranddeiliad; a
- y dyddiad y nodwyd pob cyfranddeiliad yn y gofrestr o gyfranddeiliaid.

G6.2 cofrestr ddyblyg o gyfranddeiliaid yn dangos enwau a chyfeiriadau cyfranddeiliaid a'r dyddiad y daethant yn gyfranddeiliaid;

G6.3 cofrestr o enwau a chyfeiriadau y swyddogion, eu swyddfeydd a'r dyddiadau y gwnaethant ddechrau defnyddio'r swyddfeydd hynny yn ogystal a dyblyg;

G6.4 cofrestr o ddeiliaid unrhyw fenthyciad;

G6.5 cofrestr o forgeisi ac arwystlau ar dir; a

G6.6 chopi o reolau'r gymdeithas.

G7 Mae'n rhaid i'r gymdeithas arddangos copi o'i mantolen ddiweddaraf ac adroddiad archwilydd (os yw'n ofyniad cyfreithiol cael un) yn ei swyddfa gofrestredig.

G8 Bydd y gymdeithas yn rhoi copi o'i dychweleb flynyddol ddiwethaf i'w holl gyfranddeiliaid neu berson sydd â diddordeb yng nghronfeydd y gymdeithas gydag adroddiad yr archwilydd (os yw'n ofyniad cyfreithiol cael un) ar y cyfrifon a gynhwysir yn y dychweliad, yn ddi-dâl.

G9 Os gwneir cais, bydd yr ysgrifennydd yn rhoi copi o reolau'r gymdeithas i unrhyw berson sy'n talu unrhyw swm rhesymol a ganiateir gan y gyfraith.

**Ceisiadau statudol i'r cofrestrydd**

G10 Gall deg cyfranddeiliad wneud cais i'r cofrestrydd i benodi cyfrifydd i archwilio llyfrau'r gymdeithas, cyn belled ag y bu pob un o'r deg yn gyfranddeiliaid y gymdeithas am gyfnod o ddeuddeg mis yn union cyn iddynt wneud cais.

G11 Gall y cyfranddeiliaid wneud cais i'r cofrestrydd i gynnal archwiliad o fusnes y gymdeithas neu i alw cyfarfod cyffredinol arbennig. Mae'n rhaid i gant o gyfranddeiliaid, neu un mewn deg o'r cyfranddeiliaid, pa bynnag sydd leiaf, wneud y cais.

**Gwelliannau i reolau**

G12

G12.1 Gall rheolau'r gymdeithas gael eu dirymu neu eu newid [ond nid mewn modd sy'n atal y gymdeithas rhag bod yn elusen].

G.12.2 Dim ond drwy benderfyniad a roddir gerbron y cyfranddeiliaid gan y bwrdd a'i gymeradwyo gan o leiaf ddau-draean y bwrdd cyn eu cymeradwyo gan y cyfranddeiliaid y gellir newid y rheolau.

G.12.3 Dim ond drwy benderfyniad ysgrifenedig neu gan dair rhan o bedair y pleidleisiau a fwriwyd mewn cyfarfod cyffredinol y gellir newid neu ddirymu rheolau A2; A3; A4; B1; B2; B3; C2; C3; D13; D27; G12 a G14. Gall unrhyw reol arall gael ei dirymu neu ei newid gan ddau draean y pleidleisiau a gaiff eu bwrw mewn cyfarfod cyffredinol neu drwy benderfyniad ysgrifenedig.

G.12.4 Caiff rheolau a newidiwyd eu cofrestru gyda'r cofrestrydd mor fuan ag sydd modd ar ôl cytuno ar y gwelliant. Nid yw rheol a newidiwyd yn ddilys nes caiff ei chofrestru

G.12.5 Anfonir copi o'r rheolau diwygiedig at y rheoleiddiwyr cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl cofrestru gan y cofrestrydd.

**Diddymu**

G13 Gall y gymdeithas gael ei diddymu gan fwyafrif o dair rhan o bedair o'r cyfranddeiliaid sy'n llofnodi offeryn diddymu yn y ffurf a ragnodir drwy ddirwyn y ben dan y Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Budd Cymunedol.

G.14

G.14.1 Bydd unrhyw eiddo sydd ar ôl, ar ôl i'r gymdeithas gael ei dirwyn i ben neu ei diddymu a thrin â'r holl ddyledion a'r ymrwymiadau, gall y cyfranddeiliaid benderfynu rhoi neu drosglwyddo i gorff [elusennol] arall gydag amcanion tebyg i rai'r gymdeithas;

G.14.2 Os nad oes sefydliad o'r fath yn bodoli, caiff yr eiddo ei drosglwyddo neu ei roi i Ymddiriedolaeth Elusennau y Cymdeithasau Tai;

G.14.3 Os cofrestrwyd y gymdeithas fel landlord cymdeithasol gyda'r rheoleiddiwr, mae'n rhaid i unrhyw drosglwyddiad neu rodd gydymffurfio gyda Deddf Tai 1996 (fel y mae'n gweithredu yng Nghymru) a Mesur Tai (Cymru) 2011 neu unrhyw ddarpariaethau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill perthnasol sy'n bodoli o bryd i'w gilydd.

**Dehongli termau**

G15 Yn y rheolau hyn, yn cynnwys y rheol yma, os nad yw'r deunydd pwnc neu gyd-destun yn anghyson:

G15.1 gall geiriau sy'n golygu'r unigol neu'r lluosog gynnwys y lluosog a'r unigol yn eu tro;

G15.2 bydd geiriau sy'n awgrymu un rhywedd yn cynnwys pob ac unrhyw rywedd;

G15.3 bydd "gwelliannau i reolau" yn cynnwys gwneud rheol newydd a dirymu rheol, a bydd "gwella" yng nghyswllt y rheolau hyn ei ddehongli felly;

G15.4 bydd "y gymdeithas" yn golygu'r gymdeithas y mae'r rhain yn rheolau cofrestredig iddi;

G15.5 bydd "bwrdd" yn golygu'r bwrdd a benodwyd yn unol â Rhan D a bydd "aelod bwrdd" yn golygu aelod bwrdd ar hyn o bryd, ond ni fydd yn golygu person a gyfetholwyd i'r bwrdd;

G15.6 yn y fersiwn Saesneg, bydd "CCBSA" yn golygu Deddf Cymdeithasu Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014;

G15.7 heblaw yn rheol E1 a lle'n berthnasol, bydd "cadeirydd" yn cynnwys yr is-gadeirydd;

G15.8 bydd “dyddiau clir” yng nghyswllt hysbysiad am gyfarfod yn golygu cyfnod a gaiff ei gyfrif yn eithrio'r diwrnod y bernir bod unrhyw hysbysiad neu gyfathrebiad wedi ei dderbyn dan y rheolau hyn a dyddiad y cyfarfod;

G15.9 bydd "trafodiad deilliadol" yn golygu unrhyw drafodion sy'n ddeilliadol ymlaen llaw, ffeirio, dyfodol, opsiwn neu ddeilliad arall ar un neu fwy o'r cyfraddau, arian cyfred, nwyddau, gwarantau ecwiti neu offerynnau ecwiti arall, gwarantau dyled neu offerynnau dyled arall, dangosion economaidd neu fesurau o risg neu werth economaidd, neu feincnodau eraill y caiff taliadau neu ddosbarthiadau eu gwneud, neu unrhyw gyfuniad o'r trafodion hyn;

G15.10 bydd gan "cyfathrebiad electronig" yr ystyr a roddir i "ffurf electronig" a "dulliau electronig" yn adran 148 Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol;

G15.11 bydd "aelod grŵp" yn golygu'r gymdeithas, pob is-gorff i'r gymdeithas, unrhyw gorff corfforaethol y mae'r gymdeithas yn is-gorff iddo ac unrhyw is-gorff corff corfforaethol o'r fath ac ar gyfer y diben hwn mae gan "is-gwmni" yr ystyr o fewn Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Budd Cymunedol a/neu Ddeddf Tai 1996 a/neu Ddeddf Cwmnïau 2006;

G15.12 bydd "swyddog" yn cynnwys cadeirydd ac ysgrifennydd y gymdeithas ac unrhyw aelod bwrdd ar hyn o bryd ac unrhyw bersonau eraill y gall y bwrdd eu penodi dan reol E8;

G15.13 bydd "eiddo" yn cynnwys yr holl stad diriog a stad bersonol (yn cynnwys tystysgrifau stoc benthyciad, llyfrau a phapurau);

G15.14 mae "cofrestr cyfranddeiliaid" yn golygu'r gofrestr a gedwir yn unol â rheol G6.1;

G15.15 mae "cofrestrydd" yn golygu'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol neu unrhyw olynydd statudol i neu unrhyw un yr aseiniwyd iddynt unrhyw un neu'r cyfan o'u swyddogaethau perthnasol o bryd i'w gilydd;

G15.16 mae "rheoleiddiwr" yng Nghymru yn cyfeirio at Lywodraeth Cymru neu unrhyw olynydd statudol i neu unrhyw un yr aseiniwyd iddynt unrhyw un neu'r cyfan o'u swyddogaethau perthnasol o bryd i'w gilydd;

G15.17 mae "ysgrifennydd" yn golygu'r swyddog a benodwyd i'r bwrdd gan ysgrifennydd y gymdeithas neu berson arall a awdurdodwyd gan y bwrdd i weithredu fel dirprwy yr ysgrifennydd;

G15.18 bydd "cyfranddeiliad" yn golygu un o'r personau y cyfeirir atynt yn rheol C5 ac mae'n golygu "aelod" fel y diffiniwyd gan y Ddeddf;

G15.19 mae "tenant" yn golygu person sydd ar ben ei hun neu ar y cyd gydag eraill yn dal tenantiaeth, les neu drwydded i ddefnyddio safle'r gymdeithas ar gyfer defnydd preswyl neu safle unrhyw aelod arall o'r grŵp;

G15.20 bydd "y rheolau hyn" yn golygu rheolau cofrestredig y gymdeithas ar hyn o bryd;

G15.21 bydd cyfeiriadau at unrhyw ddarpariaeth mewn unrhyw Ddeddf yn cynnwys cyfeiriad at ddarpariaeth o'r fath fel y caiff ei newid, amrywio, amnewid, ymestyn neu ail-weithredu o bryd i'w gilydd ac i unrhyw orchmynion neu reoliadau eraill a wneir dan ddarpariaeth o'r fath;

G15.22 mae "penderfyniad arbennig" yn golygu penderfyniad sydd angen cymeradwyaeth o leiaf ddau-drfaean neu dri-chwarter, fel y gall gael ei nodi yn y Rheolau hyn neu fel y'i diffinnir yn y Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol..

G16 Caiff unrhyw hysbysiad y mae'r rheol yma'n berthnasol iddo ei weini'n effeithlon os caiff ei ddanfon at gyfranddeiliad neu aelod bwrdd yn y cyfeiriad a ddarparwyd yn fwyaf diweddar gan y cyfranddeiliad neu aelod bwrdd ar gyfer y diben hwn (fel sy'n berthnasol) a ddanfonwyd i'r gymdeithas yn ei swyddfa gofrestredig er sylw'r ysgrifennydd. Bydd cyfathrebu mewn ysgrifen neu ddull arall o gyfathrebu yn cynnwys electronig a gymeradwywyd gan y bwrdd. Bernir y bydd hysbysiad o'r fath wedi ei weini:

G16.1 os caiff ei gyflwyno, gyda llaw, ar gael ei ddosbarthu;

G16.2 os caiff ei anfon drwy'r post dosbarth cyntaf, ar y diwrnod busnes cyntaf ar ôl y dyddiad y caiff ei roi yn y post; neu

G16.3 os caiff ei anfon drwy gyfathrebiad electronig ar gadarnhad (a all fod yn awtomatig) y cafodd yr hysbysiad ei dderbyn, cyn belled â'i fod mewn ffurf ddarllenadwy.

1. ...................................................................................................................... Cyfranddeiliad

2. ...................................................................................................................... Cyfranddeiliad

3. ...................................................................................................................... Cyfranddeiliad

...................................................................................................................... Ysgrifennydd

---

***PWYSIG***

***NODYN:*** Mae Rhan O y Rheolau Enghreifftiol hyn yn cynnwys amrediad o opsiynau i gyflawni amrediad o anghenion gwahanol. Cawsant eu rhannu'n fwriadol i bedair adran neilltuol i adlewyrchu:

- **ADRAN I** : nifer fechan o opsiynau generig i'r model sylfaen ar gyfer pob Cymdeithas Tai
- **ADRAN II** : opsiynau grŵp, rhiant ac is-gorff
- **ADRAN III**: opsiynau'n cyfeirio'n benodol at sefydliadau trosglwyddo stoc ar raddfa fawr a chwmnïau cymunedol cydfuddiannol (lle maent yn debyg)
- **ADRAN IV**: unrhyw opsiynau ychwanegol na chaiff eu cynnwys yn Adran III uchod yn cyfeirio'n benodol at gwmnïau cymunedol cydfuddiannol yn unig

***Bydd pob opsiwn a ddefnyddir yn rheolau'r Gymdeithas yn ffurfio rhan o'r rheolau i gael eu cofrestru, a dylid eu rhoi yn yr adran briodol yng nghorff y Rheolau. Ni ddylai'r opsiynau a ddefnyddir yn Rheolau'r Gymdeithas ffurfio rhan o'r rheolau eu hunain a dylid eu dileu.***

---

## *OPSIYNAU - ADRAN !:* OPSIYNAU GENERIG I'R MODEL SYLFAEN AR GYFER POB CYMDEITHAS TAI

## Rhan A: ENW AC AMCANION

**Amcanion: Anelusennol**

O1.1 Dileer y geiriau mewn [cromfachau sgwâr] yn rheolau A2.1, A2.2,G12.1 a G12.1;

O1.2 Dileer “[elusen] yn G.14.1 a thynnu’r cromfachau sgwâr o amgylch “[corff dim gwneud elw]”.

### Rhan C: CYFRANDDEILIAID A CHYFARFODYDD CYFFREDINOL

O1.3 Natur cyfranddeiliaid - dileer C6.3 ac ailrifo fel canlyniad.

***RHAN E: CADEIRYDD, IS-GADEIRYDD, PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL, YSGRIFENNYDD A SWYDDOGION ERAILL***

O1.5 Dileer rheol E2 a doder:

*E2 Eitem gyntaf busnes unrhyw gyfarfod bwrdd lle nad oes cadeirydd (neu is-gadeirydd) neu lle nad yw'r cadeirydd (neu is-gadeirydd) yn bresennol fydd ethol cadeirydd ar gyfer diben y cyfarfod. Bydd y cadeirydd bob amser yn gyfranddeiliad (os nad yn aelod o'r bwrdd a benodir gan y rhiant).*

## *OPSIYNAU - ADRAN II*: GRŴP, RHIANT AC IS-GORFF

### Rhan B: PWERAU CYMDEITHAS, BWRDD A CHYFRANDDEILIAID

O2.1 Dileer B2.6 a dodi - *"benthyca arian ar delerau y mae'r gymdeithas yn credu sy'n addas (yn cynnwys, heb gyfyngiad, i aelodau eraill o'r grŵp)"*

### Rhan C: CYFRANDDEILIAID A CHYFARFODYDD CYFFREDINOL

O2.2 Doder y geiriau dilynol ar ddiwedd C8: *C8* Bydd y *rhiant yn gyfranddeiliad.*

***Derbyn cyfranddeiliaid***

O.23 Dileu rheol C13 a doder: *Dylai pob cais gael ei ystyried gan y bwrdd yn unol â rheol C11. Bydd gan y bwrdd y grym yn eu disgresiwn llwyr i dderbyn neu wrthod y cais. Os caiff y cais ei wrthod gan y bwrdd a hefyd mewn ysgrifen gan y rhiant, caiff enw'r ymeisydd a'r manylion eraill angenrheidiol eu rhoi yng nghofrestr cyfranddeiliaid. Caiff un cyfranddaliad yn y gymdeithas ei chyhoeddi i'r ymgeisydd.*

O2.4 Ychwaneger rheol C14.11

C14.13 *cânt eu symud fel cyfranddeiliad drwy hysbysiad ysgrifenedig a lofnodwyd gan y rhiant ac a ddanfonir i swyddfa gofrestredig y gymdeithas.*

O2.5 Yn Rheol C15 doder y dilynol "(heblaw'r rhiant) rhwng "gall" a "chyfranddeiliad" yn y llinell gyntaf.

### RHAN D: Y BWRDD

O2.6 Ychwaneger rheol newydd D4.4. fel sy'n dilyn: *D4.4 Bydd gan y rhiant y pŵer i benodi neu dynnu unrhyw un a phob un o aelodau'r bwrdd a/neu aelodau a gyfetholwyd ar unrhyw amser drwy ysgrifennu at yr ysgrifennydd.*

O2.7 Yn rheol D9 doder yn syth ar ôl "polisïau aelodaeth y bwrdd a fabwysiadwyd gan y bwrdd o bryd i'w gilydd", y geiriau "*gyda chydsyniad y rhiant gorff*".

### RHAN G: AMRYWIOL

O2.8 Dileer rheol G12.1 a dodi:

*G12.1 Gall rheolau'r gymdeithas gael eu dirymu neu eu gwella, [ond dim mewn modd fyddai'n atal y gymdeithas rhag bod yn elusen] a dim heb ganiatâd ysgrifenedig y rhiant ymlaen llaw.*

O2.9 Doder rheol newydd G15.14:

G15.14 *Bydd y Rhiant yn golygu [ ], rhif cofrestru [rhif Cymdeithas Fuddiannol]rhif cwmni ac yn y blaen)* ac ail-rifo paragraffau dilynol G15.

## *OPSIYNAU – ADRAN III* : SEFYDLIAD TROSGLWYDDO STOC AR RADDFA FAWR/CWMNI CYMUNEDOL CYDFUDDIANNOL (lle maent yn debyg)

### Rhan C: CYFRANDDEILIAID A CHYFARFODYDD CYFFREDINOL

#### *Natur cyfranddeiliaid*

O3.1 Dileer C5 a dodi C5.1 - C5.5 diwygiedig i adlewyrchu trefniadau cyfranddeiliaid sefydliad trosglwyddo stoc ar raddfa fawr.

*C5.1: Cyfranddeiliad y gymdeithas yw person neu gorff y caiff ei enw a'i gyfeiriad ei ddodi yng nghofrestr y cyfranddeiliaid. Ni chaiff unrhyw berson neu gorff ei ddodi yn y gofrestr o gyfranddeiliaid os mai effaith cofrestriad o'r fath fyddai i nifer y cyfranddeiliaid sy'n byw yng Nghymru ostwng yn is na thri-chwarter.*

*C5.2 : Caiff cyfranddeiliaid ei rhannu yn ddau ddosbarth fel sy'n dilyn:*

- *tenantiaid sy'n gyfranddeiliaid*
- *y cyfranddeiliaid annibynnol*

*Bydd y Bwrdd yn penderfynu, gan weithredu'n rhesymol, i ba ddosbarth y dynodir cyfranddeiliad o bryd i'w gilydd.*

*C5.3: Bydd cyfranddeiliad yn perthyn i ddosbarth ac ni all berthyn i fwy nag un dosbarth.*

*C5.5: Yn amodol ar gydymffurfiaeth gyda pholisi'r Gymdeithas ar aelodaeth gyfranddaliog, bydd y bwrdd yn derbyn unrhyw denant sy'n dymuno hynny i fod yn aelod cyfranddaliog o'r Gymdeithas fel tenant gyfranddaliwr a gall, yn ei disgresiwn llwyr, dderbyn pobl eraill i fod yn aelodau cyfranddaliog o'r Gymdeithas fel cyfranddeiliaid annibynnol.*

O3.2 Doder C6 diwygiedig i adlewyrchu trefniadau cyfranddeiliaid mewn sefydliadau trosglwyddo stoc ar raddfa fawr

*C6. Ni all y dilynol fod yn gyfranddeiliaid:*

*C6.1 person dan oed fel y penderfynir gan y Bwrdd;*

*C6.2 person a gafodd ei ddiarddel fel cyfranddeiliad, os nas awdurdod hynny gan benderfyniad arbennig mewn cyfarfod cyffredinol;*

*C6.3 person a gyflogir gan y gymdeithas neu berson a gyflogir gan aelod o'r grŵp;a/neu*

*C6.4 person sy'n berson awdurdod lleol.*

O3.3 Dileer C9 a doder C9.1-C9.2 diwygiedig i adlewyrchu trefniadau cyfranddeiliaid mewn sefydliadau trosglwyddo stoc ar raddfa fawr

*C9.1 Ni fydd unrhyw gyfranddeiliad yn dal mwy nag un gyfranddaliad a dim ond un bleidlais fydd gan bob cyfranddaliad.*

*C9.2 Yn amodol ar y Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Cydfudiannol, mewn unrhyw bleidlais, ar ddangos dwylo neu bleidlais, bydd gan bob dosbarth o gyfranddeiliaid yr un nifer o bleidleisiau gan fod yn draean o'r pleidleisiau mewn cyfanswm ac fel canlyniad caiff pleidleisiau'r cyfranddeiliaid ym mhob dosbarth eu cyfrif fel sy'n dilyn:*

- *mae pleidlais pob tenant sy'n gyfranddeiliad yn gyfartal â hanner y cyfanswm pleidleisiau a rannwyd gan T*
- *mae pleidlais pob cyfranddeiliad annibynnol yn gyfartal â hanner y cyfanswm pleidleisiau a rannwyd gan I*

*lle mae*

· *T yn gyfanswm nifer y tenantiaid gyfranddeiliaid sy'n pleidleisio*

*I yn gyfanswm nifer y cyfranddeiliaid annibynnol sy'n pleidleisio*

*ar yr amod mai dim ond un bleidlais fydd gan bob cyfranddaliad ac na fydd y darpariaethau pwysedig (1/2 tenantiaid, 1/2 aelodau annibynnol) yn weithredol ar gyfer ethol aelodau annibynnol o'r bwrdd.*

**Diweddu cyfranddaliad**

O3.5 Doder Rheolau newydd C14.11 a C14.12 fel sy’n dilyn:

C14.11 *maent yn dod yn berson awdurdod lleol*, a/neu

*C14.12 maent yn gyfranddeiliad annibynnol ac yn dod yn denant o’r gymdeithas..*

## Rhan D: Y BWRDD

### Cyfansoddiad y bwrdd

O3.6: I adlewyrchu trefniadau penodol sefydliadau trosglwyddo stoc ar raddfa fawr, dileer D2 a doder D2.1-D2.8 islaw

D2.1 Bydd y bwrdd yn cynnwys rhwng [5] a [15] aelod bwrdd fel y gall y bwrdd benderfynu arno.

*D2.2 Bydd o leiaf draean aelodau bwrdd yn aelodau bwrdd annibynnol.*

*D2.3 Ni all mwy na 24% o aelodau bwrdd fod yn bersonau awdurdod lleol.*

*D2.4 Ar bob amser ni all mwyafrif o aelodau bwrdd fod yn denantiaid.*

*D2.6 Os na chaiff y gofynion yn Rheolau D2.1 i D2.4 eu cyflawni ar unrhyw bwynt yna'n amodol ar Reol D2.7 bydd y bwrdd yn defnyddio ei ymdrechion rhesymol i benodi aelodau ychwanegol i'r bwrdd fel sy'n briodol cyn belled os na chaiff y gofynion eu cyflawni ar unrhyw amser y gall gweddill aelodau'r bwrdd barhau i weithredu ac ymarfer holl bwerau'r bwrdd.*

*D2.7 Os yw nifer yr aelodau bwrdd yn is na'r nifer sydd eu hangen ar gyfer cworwm, gall gweddill aelodau'r bwrdd barhau i weithredu fel bwrdd am gyfnod o hyd at 6 mis. Os ar ôl 6 mis, nad oes nifer digonol o leoedd wedi'u llenwi i alluogi cworwm, bydd gweddill aelodau'r bwrdd yn galw cyfarfod cyffredinol o'r Gymdeithas a bydd y cyfranddeiiaid yn y cyfarfod cyffredinol hwnnw yn*

*penodi personau i fod yn aelodau bwrdd hyd y gofyniad yn y Rheolau hyn. Bydd aelodau bwrdd a benodir yn y ffordd yma'n dal i ddal swydd tan y cyfarfod cyffredinol blynyddol nesaf.*

**Cyfnodau swydd ac ethol i'r bwrdd**

O3.7 Dileer rheolau D8 i D12 a doder y dilynol

***Penodiad ac ymddeoliad tenant aelodau bwrdd***

*D8 Bydd gan y tenantiaid y pŵer i benodi hyd at [x] person fel tenant aelodau bwrdd. Cyn pob cyfarfod cyffredinol blynyddol cynhelir etholiadau ar gyfer y swyddi gwag ar gyfer tenant aelodau bwrdd sy'n deillio yn y cyfarfod hwnnw. Bydd y bwrdd yn penderfynu ar ddull a sut y cynhelir etholiadau o'r fath a gall ddirprwyo goruchwyliaeth a gweithrediad etholiadau o'r fath i gorff a gaiff ei gydnabod gan y bwrdd o bryd i'w gilydd fel bod yn cynrychioli'r tenantiaid. Os bydd pleidlais glwm, caiff yr etholiad ei phenderfynu drwy fwrw coelbren. Gall y bwrdd hefyd gadw'r hawl i gymeradwyo unrhyw ymgeisydd ar gyfer etholiad o'r fath. Rhoddir adroddiad gan yr ysgrifennydd yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol am yr ymgeiswyr llwyddiannus a chânt eu derbyn fel tenant aelodau bwrdd ar unwaith.*

*D9 Caiff pob tenant aelod bwrdd a etholir dan reol D8 eu hethol am gyfnod swydd sefydlog a ddaw i ben ar ddiwedd cyfarfod cyffredinol blynyddol (pob un yn "gyfnod sefydlog") heb fod yn hwyrach na'r trydydd cyfarfod o'r fath ar ôl eu penodiad. Ym mhob cyfarfod cyffredinol blynyddol bydd pob tenant aelod bwrdd a wasanaethodd eu cyfnod sefydlog yn ymddeol o'r Bwrdd. Bydd unrhyw denant aelod bwrdd sy'n ymddeol o'r Bwrdd mewn cyfarfod cyffredinol blynyddol dan y rheol hon D9 yn gymwys i gael eu hethol yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau a gynhwysir yn y rheolau hyn.*

*D10 Ni ellir penodi neb yn denant aelod bwrdd os ydynt wedi gwasanaethu fel aelod bwrdd am gyfnod o dri tymor parhaus o dair blynedd neu sydd wedi gwasanaethu am gyfanswm o naw mlynedd* [os nad yw'r bwrdd yn penderfynu fod amgylchiadau'n bodoli lle byddai er budd gorau y gymdeithas i aelod bwrdd wasanaethu am gyfnod hirach][4]. *Ar gyfer dibenion Rheol D10, caiff unrhyw amser a wasanaethir fel aelod wedi'i gyfethol ar fwrdd y gymdeithas (neu unrhyw bwyllgor o'r gymdeithas) a/neu amser a wasanaethwyd fel aelod bwrdd neu fel aelod wedi'i gyfethol ar y bwrdd neu bwyllgor aelod arall o grŵp neu ar fwrdd neu bwyllgor unrhyw ragflaenydd i'r gymdeithas neu aelod arall o'r grŵp ei gyfrif.*

***Penodiad ac ymddeoliad aelodau annibynnol o'r bwrdd***

*D11 Bydd gan y cyfranddeiliaid y grym i ethol [x] person fel aelodau annibynnol o'r bwrdd. Cynhelir etholiadau ar gyfer y swyddi gwag ar gyfer aelodau annibynnol o'r bwrdd sy'n deillio yn y cyfarfod hwnnw cyn pob cyfarfod cyffredinol blynyddol. Bydd y bwrdd yn penderfynu ar ddull a natur etholiadau o'r fath. Os bydd pleidlais glwm caiff yr etholiad ei phenderfynu drwy fwrw coelbren. Bydd yr ysgrifennydd yn rhoi adroddiad i'r cyfarfod cyffredinol blynyddol am ymgeiswyr llwyddiannus a chânt eu derbyn fel aelodau annibynnol o'r fwrdd yn weithredol ar unwaith.*

*D12 Caiff pob aelod annibynnol o'r bwrdd a ethoir dan reol D11 ei ethol yn unol ag unrhyw bolisïau aelodaeth bwrdd a fabwysiedir gan y bwrdd o bryd i'w gilydd, a chânt eu hethol am dymor swydd sefydlog a ddaw i ben ar ddiwedd cyfarfod cyffredinol blynyddol (pob "cyfnod sefydlog") heb fod*

[4] Dylai byrddau ystyried yn ofalus os yw'n briodol defnyhddio'r pŵer hwn ac i sicrhau fod y cofnodion yn nodi'r cyfiawnhad dros ddefnyddio'r pŵer. Bydd angen rhoi ystyriaeth i gyfnod yr estyniad. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd estyniad o ddim mwy na 12 mis yn briodol.

*yn ddiweddarach na'r trydydd cyfarfod o'r fath ar ôl eu penodi. Ym mhob cyfarfod cyffredinol blynyddol bydd pob aelod annibynnol o'r bwrdd sydd wedi gwasanaethu eu tymor sefydlog yn ymddeol o'r bwrdd. Bydd unrhyw aelod annibynnol o'r bwrdd sy'n ymddeol o'r bwrdd mewn cyfarfod cyffredinbol blynyddol dan y rheol hon D12 yn gymwys i'w hailethol ond ni fydd unrhyw aelod annibynnol o'r bwrdd sy'n ymddeol dan y rheol hon D12 yn gymwys i'w hailethol* [os nad yw'r bwrdd yn penderfynu fod amgylchiadau'n bodoli lle byddai er budd gorau y gymdeithas i aelod o'r bwrdd wasanaethu am gyfnod hirach]. *Ar gyfer dibenion Rheol D12, caiff amser a wasanaethir fel aelod cyfetholedig ar fwrdd y gymdeithas (neu unrhyw bwyllgor o gymdeithas) a/neu amser a wasanaethir fel aelod o fwrdd neu fel aelod cyfetholedig ar fwrdd neu bwyllgor aelod arall o'r grŵp neu ar fwrdd neu bwyllgor unrhyw ragflaenydd i'r gymdeithas neu aelod arall o'r grŵp ei gyfrif.*

O3.10 Doder y diffiniadau dilynol fel sy'n dilyn a newid rhifo G15 yn unol â hynny:

G.15.12 mae "awdurdod lleol" yn golygu [x] (doder enw).[5]

G.15.13 bydd "person awdurdod lleol" yn golygu unrhyw berson (i) sydd neu a fu'n gynrychiolydd etholedig yr awdurdod lleol yn y pedair blynedd flaenorol; neu (ii) sy'n swyddog yr awdurdod lleol; neu (iii) sy'n gyflogai a hefyd naill ai'n gyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall tebyg i gwmni sydd dan reolaeth yr awdurdod lleol; neu (iv) sy'n gymar neu berthynas agos i unrhyw berson a ddaw o fewn paragraffau (i) a (ii) neu unrhyw bersonau a benodwyd (neu a benodwyd ar gyfer apwyntiad i'r bwrdd) gan yr awdurdod lleol.

## OPSIYNAU - ADRAN IV: TREFNIADAU PENODOL AR GYFER CWMNÏAU CYMUNEDOL CYDFUDDIANNOL YN UNIG

**[bydd angen diwygio rheolau yn gyffredinol i gyfeirio at y "Cwmni Cymunedol Cydfuddiannol"]**

## Rhan A: ENW AC AMCANION

O4.1 Yn Rheol A2 ychwaneger y dilynol:

*A2.3 hyrwyddo ymgyfraniad y gymuned yn y Cwmni Cymunedol Cydfuddiannol;*

*A2.4 hyrwyddo datblygu cymunedol drwy hyfforddi a darparu gwybodaeth;*

*A2.5 galluogi a grymuso aelodau o'r gymuned i gymryd rhan ym musnes y Cwmni Cymunedol Cydfuddiannol a Grwpiau Lleol;*

*A2.6 cyflenwi strategaethau mewn partneriaethau gyda'r awdurdod lleol er lles y gymuned;*

*A2.7 datblygu a pharchu hawliau aelodau'r gymuned, pobl a gyflogir gan y Cwmni Cymunedol Cydfuddiannol a phobl yn delio gyda'r Cwmni Cymunedol Cydfuddiannol fel y nodir yn Siarter Hawliau Sylfaenol yr Undeb Ewropeaidd gan roi ystyriaeth yn neilltuol i'r angen i ddarparu*

[5] Doder manylion yr awdurdod lleol a noddodd sefydlu'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr

*gwybodaeth i aelodau a chynnal busnes y Cwmni Cymunedol Cydfuddiannol mewn ffyrdd hygyrch ac addas.*

## Rhan C: CYFRANDDEILIAID A CHYFARFODYDD CYFFREDINOL

### *Cyfarfod blynyddol cyfranddeiliaid*

O4.2 Yn rheol C17, ychwaneger:

*C17.5 Derbyn adroddiad y Bwrdd ar fusnes y Cwmni Cymunedol Cydfuddiannol yn cynnwys adroddiadau ar*

- *cynnydd y strategaeth a'r rhaglen i sicrhau'r lefel uchaf bosibl o ymgyfraniad y gymuned yn y Cwmni Cymunedol Cydfuddiannol,*
- *cynnydd y strategaeth a rhaglen ar gyfer datblygu cymunedol, hyfforddiant a chyfathrebu, a dynodi cymdogaethau,*
- *asesiad cyfredol dymuniadau a dyheadau cymdogaethau, a*
- *chynnydd Grwpiau Lleol a dirprwyo a throsglwyddo pwerau, cyfrifoldebau ac asedau i neu gan grwpiau lleol.*

O4.3 Yn rheol C17 doder geiriad ychwanegol i adlewyrchu cyfrannau pleidleisio yng nghyfarfodydd cyffredinol Cwmnïau Cymunedol Cydfuddiannol:

*C17.6 Ar gyfer cyfarfodydd cyffredinol, mae'n rhaid i gyfranddeiliaid tenant sy'n pleidleisio bob amser fod o leiaf 51% o'r holl gyfranddeiliaid sy'n pleidleisio yn y cyfarfod cyffredinol cyn belled mai dim ond un bleidlais yn unig fydd gan bob cyfranddeiliad yn ymwneud ag unrhyw fater yn ymwneud â phob rhanddaliwr sy'n pleidleisio ag un pleidlais dan unrhyw ddarpariaeth statudol.*

## Rhan D: Y BWRDD

### *Datganoli a grymuso'r gymuned*

O4.4 Yn rheol D1 (swyddogaeth y Bwrdd) ychwaneger:

*Yn unol â diben ac amcanion y Cwmni Cymunedol Cydfuddiannol, bydd y Cwmni Cymunedol Cydfuddiannol bob amser â'r dilynol yn ei le ac yn gweithredu:*

- *strategaeth a rhaglen i sicrhau'r ymgyfraniad cymunedol ehangaf posibl yn y Cwmni Cymunedol Cydfuddiannol;*
- *strategaeth a rhaglen ar gyfer datblygu cymunedol, hyfforddiant a chyfathrebu a dynodi cymdogaethau; a*
- *gweithdrefn ar gyfer cymdogaethau i gyfathrebu eu dymuniadau a'u dyheadau.*

*Os yw cymdogaeth yn gofyn i'r bwrdd am amrywio darpariaeth neu reolaeth bresennol ei hanheddau a lle mae'r bwrdd yn fodlon (ar ôl gweithredu'n rhesymol a chael dilysiad annibynnol ar farn o'r fath) na fydd amrywiad o'r fath yn niweidio na pheryglu'n sylweddol hyfywedd ariannol y Cwmni Cymunedol Cydfuddiannol, mae'n rhaid i'r Bwrdd:*

- *ffurfio cynnig mewn ymgynghoriad gyda'r gymdogaeth,*
- *cyfathrebu'r cynnig hwnnw i holl aelodau'r gymdogaeth,*
- *cymryd camau addas i sefydlu barn mwyafrif y gymdogaeth ar y cynnig.*

*Os sefydlir fod barn mwyafrif cymdogaeth o blaid amrywio darpariaeth neu reolaeth bresennol ei anheddau, bydd y Bwrdd yn gwneud un neu fwy o'r dilynol:*

- *hwyluso sefydlu Grŵp Lleol gydag amcanion tebyg i'r Cwmni Cymunedol Cydfuddiannol i gynrychioli a chario ymlaen â diddordebau'r gymdogaeth;*
- *dirprwyo i'r Grŵp Lleol unrhyw rai o'i bwerau a chyfrifoldebau goruchwyliol yn gysylltiedig â'r gymdogaeth honno,*
- *trosglwyddo asedau a dirprwyo unrhyw rai o'i bwerau neu gyfrifoldebau a rheolaeth feunyddiol gysylltiedig i'r Grŵp Lleol,*
- *derbyn yn ôl unrhyw asedau, pwerau neu gyfrifoldebau.*

*Ni chaiff unrhyw asedau eu trosglwyddo na phwerau a chyfrifoldebau eu dirprwyo i (neu yn ôl gan) Grŵp Lleol oddieithr:*

- *gyda chymeradwyaeth (lle bo angen) y rheoleiddiwr ac, os oes angen, y cofrestrydd;*
- *mewn cydymffurfiaeth gyda goblygiadau cyfreithiol i Gwmni Cymunedol Cydfuddiannol i drydydd parti, ac yn neilltuol (heb gyfyngiad) unrhyw oblygiadau'r Cwmni Cymunedol Cydfuddiannol i arianwyr trydydd parti, benthycwyr neu ymddiriedolwyr gwarantau, a*
- *tan ar ôl bumed pe  n-blwydd y Trosglwyddiad. Ar gyfer y diben hwn y Trosglwyddiad yw trosglwyddo stoc tai a weithredwyr yn dilyn cytundeb rhwng [Awdurdod Lleol] a'r Cwmni Cymunedol Cydfuddiannol dyddiedig [ ].*